

Pont-y-pŵl: Deall Nodweddion Trefol



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cadw
Llywodraeth Cymru
Plas Carew
Uned 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd CF15 7QQ

Ffôn: 01443 33 6000
Ffacs: 01443 33 6001

Cyhoeddwyd gyntaf gan Cadw yn 2012
ISBN 978-1-85760-298-2
© Hawlfraint y Goron 2012

Cadw yw gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru, yn gweithio i sicrhau amgylchedd hanesyddol hygrych a ddiogelir yn dda i Gymru.

Pont-y-pŵl:

Deall Nodweddion Trefol

Cydnabyddiaethau

Wrth gynnal yr astudiaeth hon, rhoddodd Cadw gymorth grant i Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg-Gwent i wneud gwaith mapio a chronfa ddata i olrhain datblygiad trefol yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac i nodi data perthnasol yng Nghofnod Henebion Cenedlaethol Cymru a'r Cofnod Amgylchedd Hanesyddol rhanbarthol. Cedwir y data mapio a'r gronfa ddata a wneir yn sgîl y prosiect hwn fel cofnod digidol gan Cadw ac Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg-Gwent.

Darparwyd ffotograffau ar gyfer yr astudiaeth hon gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru, a cheir gwybodaeth am rai safleoedd penodol yn ardal yr astudiaeth ar Coflein, cronfa ddata ddigidol ar-lein y Comisiwn.

Cynnwys

Cyflwyniad

Nodau'r Astudiaeth

Cefndir Hanesyddol

Hanes Haearn: Hanes Diwydiannol

Pont-y-pŵl

Twf Anheddiad Trefol

Hanes a Thwf Cynnar

Ehangu ar Ddiwedd y Bedwaredd

Ganrif ar Bymtheg

Yr Ugeinfed Ganrif

Tirfeddiannaeth

Cysylltiadau: Rhwydweithiau Trafnidiaeth

Tirwedd Hanesyddol

Nodweddion Adeiladu

Cronoleg Adeiladu

Deunyddiau Adeiladu

Mathau o Adeiladau

Adeiladu Masnachol

Adeiladau Dinesig a Chrefyddol

Datblygiad Preswyl

Adeiladu Preswyl Trefol

Ardaloedd â Nodweddion

1. Canol y Dref

2. Hanbury Road

3. Troisant

4. Parc Pont-y-pŵl

5. Pont-y-moel

6. Heol Osborne

7. Penygarn ac i'r Dwyrain o'r Afon

8. Sow Hill

9. Waenfelin

Datganiad Pwysigrwydd

Ffynonellau Dethol

Ffynonellau Cartograffig

Ffynonellau Cyhoeddedig

Ôl-nodion

Rhestr o Fapiau tudalennau 65–80

- Graddau Datblygiad Trefol erbyn 1844 (data Map y Degwm ar Argraffiad Cyntaf cronfa mapiau'r Arolwg Ordnans)
- Graddau Datblygiad Trefol erbyn 1882 (ar Argraffiad Cyntaf cronfa mapiau'r Arolwg Ordnans)
- Manylion Datblygiad Trefol yng Nghanol Pont-y-pŵl, Sow Hill a Throsnant erbyn 1882 (ar Argraffiad Cyntaf cronfa mapiau'r Arolwg Ordnans)
- Graddau Datblygiad Trefol erbyn 1901 (ar Ail Argraffiad cronfa mapiau'r Arolwg Ordnans)
- Manylion Datblygiad Trefol yng Nghanol Pont-y-pŵl, Sow Hill a Throsnant erbyn 1901 (ar Ail Argraffiad cronfa mapiau'r Arolwg Ordnans)
- Pob Ardal â Nodweddion
- Pob Ardal â Nodweddion lle ceir Adeiladau Rhestredig, Parc Cofrestredig ac Ardal Gadwraeth
- Canol y Dref
- Hanbury Road
- Trosnant
- Parc Pont-y-pŵl
- Pont-y-moel
- Heol Osborne
- Penygarn ac i'r Dwyrain o'r Afon
- Sow Hill
- Waenfelin

Cyflwyniad

Nodau'r Astudiaeth

Mae nodweddion hanesyddol wrth wraidd natur unigryw leol ac ymdeimlad o frogarwch. Mae gan bob lle hanes unigryw, felly mae gan bob lle nodweddion hanesyddol unigryw, sy'n ased grymus o ran adfywio. Mae ymateb i nodweddion lleol yn amcan sy'n bwysig i gynllun da; gall ei gynnal gyflwyno buddiannau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

Mae nodweddu trefol yn ddull a all ein helpu i ddefnyddio nodweddion hanesyddol i greu llefydd cynaliadwy a nodedig ar gyfer y dyfodol. Ei nod yw disgrifio ac egluro nodweddion hanesyddol trefi, rhoi ffocws i natur unigryw leol a helpu i wireddu gwerth llawn yr amgylchedd hanesyddol. Ei nod yw llywio a chefnogi rhaglenni cynllunio, adfywio a chadwraeth cadarnhaol, helpu i wella ansawdd

cynghor cynllunio, a chyfrannu at strategaethau dehongli ac addysgu lleol.

Mae nodweddu trefol yn diffinio nodweddion hanesyddol unigryw trefi unigol, ac yn nodi amrywiaeth y nodweddion ynddynt. Mae'n edrych ar hanes tref ac yn nodi ei mynegiant mewn patrymau gofod a chysylltiadau ac mewn traddodiadau adeiladu, sy'n rhan hanfodol o nodweddion hanesyddol.

Ceir tri phwrpas i'r astudiaeth hon: bwriedir iddi gyfrannu at Fenter Treftadaeth Trefluniau ar gyfer canol y dref; llywio cynigion ar gyfer adfywiad ehangach ym Mhon-y-pŵl; a chynnig cymorth i bolisiau yn y Cynllun Datblygu Lleol, sydd â'r nod o gynnal natur unigryw leol. Nodwyd ardal yr astudiaeth i roi cymorth penodol ar gyfer gwaith yng nghanol y dref a'r ardal gyfagos, ynghyd â nodi cyd-destun ar gyfer gweithgareddau adfywio ffisegol a chynllunio yn ardal ehangach yr anheddiad.

Cyfnodau gwahanol gwaith adeiladu masnachol yng nghanol y dref (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Cefndir Hanesyddol

Hanes Haearn: Hanes Diwydiannol Pont-y-pŵl

*'The situation of Pont y Pool, near a region rich in mineral treasures, in the midst of forges and collieries, and at the head of the canal, render it peculiarly commodious for the establishment of iron manufactories; and perhaps another generation may see a new Birmingham start up in the wilds of Monmouthshire.'*¹

*'...the town now derives its consequence from the mineral treasures abounding in the surrounding country. Immense quantities of iron ore and coal being found in the neighbourhood, and there are also no fewer than 13 iron furnaces, besides tin-works, forges etc, within about five miles of the town.'*²

Mae Pont-y-pŵl yn enwog yn hanes diwydiannol Cymru fel y dref ddiwydiannol gyntaf o bosibl a'r ganolfan gyntaf yn y wlad i gynhyrchu llenni haearn â haen dun. Dechreuodd y datblygiad ar ddiwedd yr ail ganrif ar bymtheg, ond roedd yr ardal eisoes wedi'i sefydlu fel canolfan ddiwydiannol â chysylltiad â'r diwydiant haearn erbyn yr unfed ganrif ar bymtheg. Ceir cyfeiriadau dogfennol at ffwrnais haearn bwrw ym Mhont-y-moel ar ddechrau'r bymthegfed ganrif.

Saif Pont-y-pŵl yng nghwm Afon Llwyd, a oedd yn gyforiog o adnoddau naturiol ar gyfer cynhyrchu haearn. Roedd toreth o olog, glo a mwyn haearn ar gael, ac roedd yr afon a'i llednentydd yn cynhyrchu grym dŵr. Yn sgîl datblygiadau technolegol yn yr unfed ganrif ar bymtheg, yn fwyaf nodedig cyflwyno'r ffwrnais chwyth, gallai unigolion mentrus ddefnyddio'r adnoddau hyn i gynhyrchu ar raddfa fwy. Roeddent yn gosod tir ar brydles i adeiladu ffwrneisi, yn ogystal ag i echdynnu'r deunyddiau crai ar gyfer cynhyrchu haearn a'r tanwydd i fwydo'r ffwrneisi.

Sefydlwyd un o'r ffwrneisi chwyth cyntaf yng Nghymru yn Monkwood (rhwng Pont-y-pŵl a Brynbuga) yn 1536. Dros y degawdau dilynol, sefydlwyd clwstwr o ffwrneisi yng nghyffiniau

Pont-y-pŵl gan sawl entrepreneur. Un o'r rhain oedd Richard Hanbury o Swydd Gaerwrangon a fu'n rhedeg ffwrnais yng Nghwmffwrdd o tua 1579, ac a gymrodd reolaeth o ffwrnais yn Abercarn yng Nghwm Ebwy yn ddiweddarach yn y ganrif. Sefydlwyd ffwrnais ym Mhont-y-moel (ym Mharc Pont-y-pŵl fel y'i gelwir bellach) tua 1575–76 gan John Truve, ond roedd yn un o fentrau Hanbury erbyn diwedd yr ail ganrif ar bymtheg. Gosodwyd ffwrnais arall ger Trosnant ('Hen Ffwrnais' ar fapiau modern) ar brydles i John Hanbury yn 1698.³

Troswyd haearn bwrw yn haearn gyr mewn gefeiliau, a sefydlwyd gerllaw'r ffwrneisi. Roedd gweithfeydd haearn Pont-y-moel yn cynnwys gefail yn ogystal â ffwrnais, a fu'n gweithredu hyd at tua 1831 pan y'i caewyd fel rhan o raglen i wella Parc Pont-y-pŵl. Erbyn tua 1577, mae'n debyg bod Gefail y Dref yn bodoli, yn union o dan y bont ger canol y dref fel y'i gelwir nawr. Ceir cynllun manwl o'r safle a wnaed yn 1834, ond fe'i caewyd yn fuan ar ôl hyn ac roedd y safle'n barc neu'n erddi erbyn 1881.⁴ Mae'n debyg bod Gefail Osborne, ychydig islaw'r bont ym Mhontnewynydd, cyn hyned â'r ddwy arall; roedd yn gwneud haearn Osmond neu Osborn, a oedd yn enwog am ei ansawdd eithriadol.⁵ Yn ddiweddarach, sefydlwyd yr Efail Newydd yn union i'r dwyrain o ganol y dref ac i'r gogledd o'r bont. Fe'i gelwid yn Efail y Dref ar ôl cau Efail wreiddiol y Dref islaw'r bont, a pharhaodd i weithredu hyd at y 1950au.


Roedd y mentrau hyn yn dibynnu ar gyflenwad dibynadwy o ddeunyddiau crai a darddwyd o dirddeiliadaethau sylweddol. Amcangyfrifir bod angen i ffwrnais chwyth fawr a losgai olog gael tua 7,000 erw (2,832.8 hectar) o goetir, a bod angen i efail gael 6,000 erw (2,428.11 hectar). Caffaelodd Richard Hanbury ardaloedd eang o goetir; erbyn 1576 roedd hefyd wedi cael hawliau i gloddio am fwyn haearn a glo ar fwy na 800 erw (323.74 hectar) o amgylch Pont-y-moel, Mynyddislwyn a Phanteg, yn ogystal â hawliau i gloddio am fwyn haearn ar sawl erw yn arglwyddiaeth y Fenni (ardal Blaenafon). Bu'r teulu Hanbury hefyd yn cloddio am lo yn Lower Race, Cwm Lleucu a Blaendâr o'r ail ganrif ar bymtheg. Daeth glo yn

rhan gynyddol bwysig o'r economi leol wrth iddo ddisodli golosg fel tanwydd i'r diwydiant haearn.⁶

Gwnaed y cyfeiriad penodol cyntaf, wrth ei enw, i weithgaredd ym Mhont-y-pŵl yn 1665, pan osododd Capel Hanbury ddarn o dir ar brydles — 'a parcel of waste called Pontypoole, together with the forge thereon'. Mae'n debyg mai hwn oedd y gweithfeydd haearn a leolwyd yn yr hyn a oedd yn barc yn ddiweddarach, a Capel neu ei fab, Uwchgapten John Hanbury, a adeiladodd Dŷ Parc Pont-y-pŵl. Roedd Uwchgapten Hanbury wedi sefydlu'r felin rholio gyntaf ar gyfer cynhyrchu platiau du yn y parc erbyn 1697. Erbyn tua 1706,

roedd y gwaith o gynhyrchu tunplat hefyd wedi dechrau.⁷ Erbyn 1728 roedd melin rholio newydd wedi'i hadeiladu ym Mhontyfelin (safle Gweithfeydd Dur Pant-teg) i gyflenwi melin dun ym Mhont-y-moel; mae'n debyg mai hwn oedd y lle cyntaf ym Mhrydain a allai weithgynhyrchu symiau dichonadwy o dunplat. Mae'n debyg mai Hen lard yr Ystad oedd safle'r felin dun. Sefydlwyd gweithfeydd tun eraill yn fuan mewn mannau eraill yn y dref, yn cynnwys gweithfeydd helaeth yn y Felin Isaf a rhai eraill i'r de-orllewin o'r bont ym Mhont-y-moel (fe'i sefydlwyd yn 1806, ac fe'i hadnabuwyd yn ddiweddarach fel Gweithfeydd Tun Pont-y-moel).⁸

Parc Pont-y-pŵl, fel y'i dangosir tua 1860 (Llyfrgell Genedlaethol Cymru).





Uchod: Adeiladau a gollwyd y credwyd yn draddodiadol eu bod yn gysylltiedig â'r diwydiant japanio (Casgliad Ymddiriedolaeth Amgueddfa Torfaen).

Dde: Ceir olion gweithgarwch diwydiannol ar hyd glannau'r afon o hyd (Hawlfraint y Goron: CBHC).





Dim ond yn gymharol ddiweddar y datblygwyd llawr gwastad y cwm ar gyfer adeiladu tai, unwaith i'r gweithgarwch diwydiannol ddod i ben (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Yn ystod y ddeunawfed ganrif, datblygodd canolfannau cynhyrchu haearn eraill mewn mannau eraill (Merthyr; y Bers, a Blaenafon yn ddiweddarach), ond roedd Pont-y-pŵl wedi sefydlu rôl arbenigol bwysig yn y gwaith o gynhyrchu tunplat.⁹ Erbyn 1732, datblygwyd dull penodol o drin y tunplat, a greai orffeniad lacrog uchel ei fri. Japanio oedd enw'r broses hon, ac fe'i datblygwyd i ddechrau gan Thomas Allgood ac yna gan ei fab Edward, a ddechreuodd gynhyrchu ar raddfa fawr yn 1732. Ceir rhywfaint o amheuaeth ynghylch union leoliad y gweithfeydd japanio cynnar: Credir yn draddodiadol mai tŷ yn Nhrosgnant y tu ôl i Dafarn y Star, sydd wedi'i hen ddymchwel, oedd y safle cyntaf. Mae traddodiad arall yn awgrymu bod gan yr Allgoods hefyd eiddo japanio yn West Place y tu ôl i Crane Street (ceir darlun ohono a wnaed yn 1871). Mae Nichols yn ysgrifennu am waith dymchwel helaeth a wnaed ar ben uchaf Crane Street tua 1970, a ddatgelodd res o odynau posibl, ond ni chawsant eu cofnodi.¹⁰ Ceir safle arall a gysylltwyd â gwaith japanio ar Lower Crane Street, a elwid yn Japan Street yn 1836. Roedd y gwaith o gynhyrchu crochenwaith japan wedi dirywio erbyn dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg (caeodd ffatri Allgoods yn 1817) ac,

erbyn 1858, nodwyd ei fod yn 'totally extinct and the town now entirely depends upon the iron and coal works, and manufacturing tinplate, boilerplate, and rail for railways. These branches are carried on extensively within a radius of eight miles from the town'.¹¹ Daeth y diwydiannau trymach i ddominyddu'r economi leol yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Fe'u hategwyd gan y defnydd helaeth o ddeunyddiau crai (yn cynnwys glo) yng nghefnwlad y dref.

Diflannodd llawer o'r sylfaen diwydiannol hwn yn ystod yr ugeinfed ganrif, a bellach dim ond olion prin a geir sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r diwydiannau a fu'n sail i'r dref. Er hynny, ceir olion sawl peth i'n hatgoffa o ddiwydiant yn nhirwedd yr ardal: rheolwyd yr afon a'i llednentydd fel ffynhonnell o bŵer ac, er bod sawl dyfrgwrs wedi diflannu, ceir olion gweithgarwch diwydiannol helaeth ar hyd glannau'r afon o hyd. Mae patrwm yr anheddiad ei hun yn adlewyrchu defnydd hanesyddol o dir: Roedd llawr y cwm yn dir gwerthfawr ar gyfer gwneud gwaith cynhyrchu a dosbarthu arbenigol — dim ond yn yr oes fodern y mae datblygiadau eraill wedi meddiannu'r lle gwag a adawyd ar ôl gan y diwydiant.



Uchod: Y bont ym Mhont-y-pŵl, a ddarluniwyd gan G. Samuel ac a ysgythrwyd gan J. Walker yn 1801 (Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

Gyferbyn: Mae'n debyg mai'r neuadd farchnad o'r ddeunawfed ganrif yw'r adeilad hynaf sydd wedi goroesi yng nghanol y dref (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Twf Anheddiad Trefol

*'One of the most singular and irregularly built towns in the kingdom.'*¹²

Hanes a Thwf Cynnar


Arweiniodd gweithgarwch diwydiannol at dwf anheddiad yn y cwm, lle cafwyd clystyrau o anheddau yn ogystal â ffermydd gwasgaredig. Mae'n debyg mai pentrefannau Pont-y-moel a Throsgnant oedd rhai o'r canolfannau cynharaf, ond mae'n debyg mai penderfyniad y teulu Hanbury i fuddsoddi yn ardal Pont-y-pŵl ei hun a arweiniodd at ddatblygu tref gyflawn yma. Y cyfan sy'n hysbys am y lleoliad penodol hwn cyn diwedd yr unfed ganrif ar bymtheg yw bod croesfan dros yr afon yno — ceir cyfeiriad at bont o'r enw Pont Poell mewn dogfen o 1490.¹³

Mae'n anodd dod o hyd i hanes cynnar y dref, ond erbyn diwedd yr ail ganrif ar bymtheg cafodd y dyhead am statws trefol ei wobrwyo gan ddeiseb lwyddiannus i sefydlu marchnad —

caniataodd y Goron iddi gael marchnad ar ddydd Sadwrn a thair ffair flynyddol yn 1690. Darparwyd adeilad y farchnad yn 1730 gan Frances Bray, yr oedd ei theulu yn arglwyddi maenor yn Wentsland a Bryngwyn, ac a oedd yn berchen ar dirddaliadaethau sylweddol i'r gorllewin o'r afon. Yn ystod y cyfnod hwn hefyd y sefydlodd y teulu Hanbury Barc Pont-y-pŵl fel eu preswylfa barhaol. Mae'n debyg bod hyn, ynghyd â'r broses o ddatblygu gweithfeydd newydd yn y cyffiniau, wedi rhoi ysgogiad pellach i ddatblygiad trefol.

Disgrifiwyd Pont-y-pŵl fel 'a little compact town' erbyn 1756. Roedd awdur y disgrifiad hwn o'r farn mai gweithfeydd haearn y teulu Hanbury oedd yn gyfrifol am y datblygiad hwn. Nododd hefyd 'the houses and buildings belonging to this manufacture are scattered and extend far above a mile along the river', gan awgrymu efallai bod y dref ei hun eisoes yn rhyw fath o ganolbwynt mewn patrwm anheddu a oedd yn wasgaredig fel arall.¹⁴ Erbyn hyn hefyd, roedd statws y dref wedi'i nodi gan y farchnad a'r ystafelloedd cyfarfod, a sefydlwyd yn 1731. Roedd Pont-y-pŵl erbyn hyn yn datblygu rôl fel canolbwynt masnachol a chymdeithasol i'r ardal ehangach.





© Hawlfraint y Goron a Landmark Information Group. Cedwir pob hawl.Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent Cyf. Ar ran Llywodraeth Cymru 2012.

Patrum anheddu Pont-y-pŵl, Trosnant a'r Transh erbyn 1844 (data Map y Degwm ar Argraffiad Cyntaf cronfa mapiau'r Arolwg Ordnans).

Dengys tystiolaeth mapiau bod cnewyllyn anheddu helaeth ym Mhont-y-pŵl erbyn diwedd y ddeunawfed ganrif.Ym map Emmanuel a Thomas o Sir Fynwy dyddiedig tua 1767,¹⁵ caiff Pont-y-pŵl ei phortreadu yn debyg o ran maint i Gaerllion a Brynbuga. Rai blynyddoedd yn ddiweddarach, pan baratowyd map i ddangos llinell y gamlas arfaethedig o Gasnewydd i Bontnewynydd, roedd cynllun y dref yn glir: ymestynnai ar hyd y ffordd a redai i fyny'r cwm, hyd at gyffordd y llwybrau o'r gogledd i'r de ac o'r dwyrain i'r gorllewin.

Fodd bynnag, ni chreodd argraff dda ar ôl o Sweden a ymwelodd â Chymru yn ystod y ddeunawfed ganrif. Yn ôl R. R. Angerstein, 'Pontypool is a town of little importance, and only worth mentioning because of its ironworks and its mills for rolling and tinning sheets and wire drawing'. Nododd fod y cyfan yn nwylo un perchennog, sef Mr R. Hanbury, a oedd yn

berchen ar dŷ cadarn '(which) lies in a deer park on the side of the river on which the ironworks have been erected, though they are at some distance from the house'.¹⁶

Er gwaethaf y diffyg tystiolaeth ffisegol uniongyrchol, dylid dychmygu bod y dref wedi parhau i ffynnu a thyfu yn ystod y ddeunawfed ganrif oherwydd, erbyn 1801, dywedir 'Pont y Pool is a large straggling place, containing 250 houses, and 1,500 souls. Several neat habitations, and numerous shops, present an appearance of thriving prosperity, notwithstanding the dusky aspect of the town, occasioned by the adjacent forges. The inhabitants derive great support from the ironworks and collieries, and have been recently benefited by the trade of the canal. The place is the principal mart for the natives of the mountainous district, and the weekly market is not the least considerable, and the cheapest in Monmouthshire'.¹⁷



Cafwyd datblygiad masnachol helaeth yng nghanol y dref ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, fel y gwelir yn yr enghraifft hon ar Heol Osborne (Hawlfraint y Goron: CBHC).

O ran maint ffisegol, mae'n debyg mai dim ond ychydig yn fwy na Throsgnant oedd Pont-y-pŵl ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, ond yn ystod y cyfnod hwn y sicrhodd ei statws fel tref fawr. Mae sawl adeilad yng nghanol y dref sy'n dyddio o'r cyfnod hwn ac, er nad ehangodd y dref yn sylweddol o ran arwynebedd, tyfodd o ran dwysedd. Dengys map o 1836¹⁸ anheddiad llinellol tynn wedi'i ganoli'n bennaf ar gyffordd y brif ffordd (Commercial Street a George Street) gyda Crane Street a'r ffordd at y bont, ac sy'n parhau am beth pellter i'r gogledd-orllewin (tuag at Bontnewynydd). Er ei bod yn amlwg yn ardal nodedig, roedd Trosgnant hefyd wedi'i datblygu'n gymharol ddwys ac yn llinellol iawn ar hyd y ffordd o Bont-y-moel, gyda datblygiadau cyfyngedig rhwng y llinell honno a'r gamlas ar hyd Clarence Street a'r tu ôl iddi, lle roedd melin ŷd.

Mae'r map hwn o 1836 yn cofnodi'r crynodiad o ddatblygiad yn y ddau leoliad sydd bellach yn diffinio'r dref fodern — canol y dref a Trosgnant, sy'n gwrthgyferbynnu â'r patrwm mwy afreolaidd i'r de-orllewin. Dangosir y gwrthgyferbyniad hwn yn amlycach fyth ar Fap y Degwm o Drefddyn: er bod llawer o aneddiadau gwasgaredig dros y llechwedd yn Sow Hill a'r Transh (mae'n debyg bod yr ail yn aneddiadau sgwatwyr yn wreiddiol), mae'r dref ei hun yn nodedig o gryno. Mae'n debyg y dechreuwyd ar waith datblygu mwy ffurfiol yn yr ardal yn union i'r gorllewin o ganol y dref yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg: sefydlwyd y capel ar Nicholas Street yn 1854, ac



Tyfodd Pont-y-pŵl yn gyflym ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg wrth i faestrefi newydd gael eu creu (Hawlfraint y Goron: CBHC).

mae rhai o'r tai yma yn wahanol iawn i'r arddull a oedd yn amlwg mewn datblygiadau maestrefol ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Ehangu ar Ddiwedd y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg

Er ei bod yn debyg iddi fwynhau twf cyson drwy gydol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, cafwyd cryn weithgarwch ym Mhont-y-pŵl rhwng tua 1880 a 1900, ac adeiladwyd neu ailadeiladwyd llawer o adeiladau canol y dref yn ystod y cyfnod hwnnw. Datblygwyd y rhan fwyaf o faestrefi'r dref hefyd ar yr adeg hon. Mae cyflymder y twf dros gyfnod byr wedi arwain at unfurfiaeth hynod yn yr ardaloedd hyn. Yn ystod y datblygiad hwn, amharwyd ar anffurfioldeb patrymau anheddu cynharach i'r gorllewin o'r dref, heblaw yn y Transh, lle mae trefniant damweiniol i'r datblygiadau modern o hyd.

Dde: Y fynedfa i'r farchnad o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg — prosiect dinesig pwysig, a chwaraeodd ran amlwg ym mywyd masnachol ac economaidd y dref (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Dde pellaf: Eglwys y Bedyddwyr Crane Street (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Dde: Manylion cain ar do neuadd y farchnad (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Dde pellaf: Eglwys Sant Ioan y Difinydd, Waenfelin (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Cafodd Pont-y-pŵl nodweddion ffurfiol sy'n gysylltiedig â statws trefol fesul tipyn. Y nodwedd hanfodol gyntaf oedd sefydlu marchnad ar ddiwedd yr ail ganrif ar bymtheg. Roedd adeilad y farchnad a godwyd yn 1730 wedi bod yn ddigonol tan 1846, pan ddarparwyd adeilad newydd. Mae'r ffaith y llwyddwyd i gyfiawnhau disodli ac ehangu'r farchnad yn 1893–94 (ac eto yn 1897) yn arwydd sicr o ffyniant y dref yn y cyfnod hwn, a'i thwf cyflym. Sefydlwyd neuadd y dref yn 1856, diolch i nawdd Capel Hanbury Leigh, ond fe'i gweinyddwyd gan ynadon nes i fwrdd llywodraeth leol gael ei sefydlu yn 1871. Disodlwyd y bwrdd hwn yn ei dro gan Gyngor Dosbarth Trefol a sefydlwyd yn 1895, ond parhaodd adeilad y farchnad i fod yn un o'r prif nodweddion a etifeddwyd o'r drefn hon.

Mae eglwysi a chapeli yn ddangosyddion eraill o boblogaeth, ffyniant a dyhead. Ceir enghreifftiau pwysig ym Mhont-y-pŵl o hyd, er y collwyd sawl un yn ystod yr ugeinfed ganrif. Ymysg y rhai nodedig sydd wedi goroesi mae Eglwys Sant Iago, a sefydlwyd yn 1821; Eglwys y Bedyddwyr yn Nhrosnant Uchaf, a adeiladwyd yn 1826; Eglwys y Bedyddwyr Crane Street, 1847; Eglwys Babyddol Sant Alban, 1844–46; a Chapel Nicholas Street,

1854. Gyda thwf y dref ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif, daeth Eglwys y Bedyddwyr Merchants Hill (1888), ac Eglwys Sant Ioan y Difinydd yn Waenfelin (1912–13).

Yr Ugeinfed Ganrif

Cynyddodd ardal adeiledig Pont-y-pŵl yn helaeth yn ystod yr ugeinfed ganrif. Cafwyd rhywfaint o waith adeiladu hapfasnachol yn ystod y cyfnod rhwng y ddau ryfel, yn fwyaf nodedig ar hyd y ffordd o Bont-y-moel i New Inn, ac o Bont-y-pŵl i Benygarn, ond daeth y cyfraniad mwyaf i dwf trefol ar ffurf cynlluniau tai cyhoeddus mawr yn y maestrefi. Cafwyd rhai prosiectau adeiladu newydd sylweddol yng nghanol y dref hefyd, yn cynnwys rhai adeiladau dinesig a masnachol da yn y 1920au a'r 1930au, a'r orsaf heddlu yn y 1950au. Mae rhaglenni clirio ac ailddatblygu dros ddau ddegawd diwethaf y ganrif hefyd wedi dylanwadu'n sylweddol ar nodweddion y dref, gan gyflwyno blociau o adeiladau ar raddfa fwy nag a welwyd cyn hynny a chan newid patrwm gofodol canol y dref: er enghraifft, lledu George Street a chreu'r cyswllt newydd rhwng George Street a Heol Osborne.



Canol y dref, yn dangos maint adeiladau'r farchnad (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Tref Pont-y-pŵl heddiw, wedi'i hamgylchynu gan faestrefi ac aneddiadau dibynnol o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Canlyniadau gwaith ailddatblygu yng nghanol y dref yn yr ugeinfed ganrif (Hawlfraint y Goron: CBHC).



*Y gamlas ym
Mhont-y-moel — a oedd
unwaith yn gyffordd i
Gamlas Sir Fynwy a
Chamlas Brycheiniog a'r
Fenni (Hawlfraint y
Goron: CBHC).*

Tirfeddiannaeth

Roedd y tir yr adeiladwyd y dref arno wedi ffurfio rhan o eiddo Abaty Llantarnam, a oedd yn berchen i'r teulu Morgan o Dredegar yn yr unfed ganrif ar bymtheg. Erbyn dechrau'r ddeunawfed ganrif, roedd yr ystad wedi'i rhannu i bob pwrpas, â'r tir i'r gorllewin o'r afon yn perthyn i Frances Morgan, a oedd wedi priodi ag Edmund Bray, yr oedd ei deulu yn arglwyddi maenor ym Mryngwyn a Wentsland. Roedd daliadau sylweddol yn perthyn i'r faenor o hyd ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yn y cyfamser, roedd y teulu Hanbury yn atgyfnerthu eu gafael ar ochr ddwyreiniol yr afon. Roedd hyn yn ymwneud yn rhannol â rheoli adnoddau er mwyn cynhyrchu haearn, ond hefyd â chael digon o dir i sefydlu daliad domestig — ni fu'r teulu yn byw yn yr ardal tan tua 1679, pan brynwyd tir ar gyfer tŷ a pharc gan Capel Hanbury (ei fab oedd yr Uwchgapten John Hanbury, a oedd yn gyfrifol am ddechrau cynhyrchu tunplat). Erbyn diwedd yr ail ganrif ar bymtheg, roedd y teulu Hanbury wedi sefydlu ystad helaeth. Aethant ymlaen i ddominyddu'r ardal, gan gaffael llawer o

ddaliadau ar ochr orllewinol yr afon hefyd, er nad hwy oedd yr unig berchnogion eiddo yno erioed, fel y nodir yn yr Arolwg Degwm.

Roedd ystad Hanbury ac ystad Wentsland yn berchen ar safleoedd diwydiannol allweddol, ond roedd ganddynt ddaliadau amaethyddol sylweddol hefyd. Eisteddai tir â defnydd amaethyddol yn gyfforddus ochr yn ochr â thir â defnydd diwydiannol, fel y nodir yng nghofnodion yr ystad o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.¹⁹

Cysylltiadau: Rhwydweithiau Trafnidiaeth

Roedd y diwydiannau yng nghyffiniau Pont-y-pŵl o anghenraid yn rhan o rwydwaith cymhleth, ar gyfer cyflenwi deunyddiau crai ac ar gyfer dosbarthu nwyddau gorffenedig. Roedd y rhanbarth wedi'i ddiwydiannu'n helaeth, lle bynnag yr oedd yn bosibl defnyddio adnoddau naturiol toreithiog yr ardal. Manteisiodd Pont-y-pŵl a'r cyffiniau yn



Arferai'r bwâu hyn fynd â thramffordd a chyflenwad dŵr o dan y gamlas i'r gweithfeydd tunplat yn y Felin Isaf (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Chwith pellaf: Ceg twnnel tramffordd ddiwydiannol yn y Gerddi Eidalaidd (Hawlfraint y Goron: CBHC).

benodol ar safle hydrin, a oedd yn addas ar gyfer datblygu coridor a chanolfan drafnidiaeth bwysig ar gyfer ardal llawer ehangach, o Flaenafon yn y gogledd i Grymlyn yn y gorllewin.

Roedd y broses o gynhyrchu haearn a'i ffurfiau deiliadol yn dibynnu ar gysylltiadau trafndiaeth da, i ddod â deunyddiau crai i'r safleoedd cynhyrchu ac i fynd â chynhyrchion gorffenedig i'w marchnadoedd. Roedd y ffaith i gyfres o gamlesi gael eu hymestyn i gyrraedd yr ardal ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif yn cydnabod ei phwysigrwydd cynyddol. Sefydlwyd Camlas Sir Fynwy gan Ddeddf Seneddol yn 1792 — roedd yn rhedeg o Gasnewydd i Bontnewynydd. Flwyddyn yn ddiweddarach, cynigiwyd sefydlu ail gamlas: sef Camlas Brycheiniog a'r Fenni, a redai o Aberhonddu i fan terfyn yn Llan-ffwyst yn 1805. Yn 1812, estynnwyd y gamlas mor bell â Phont-y-moel, gan sefydlu cyswllt â Chamlas Sir Fynwy.

Prif bwrpas y camlesi hyn oedd darparu trafndiaeth ddiwydiannol; roedd y rhwydwaith o dramffyrdd a oedd yn cysylltu safleoedd

diwydiannol unigol gyda'r camlesi yr un mor bwysig. Gwnaeth y Deddfau Seneddol, a arweiniodd at sefydlu'r camlesi, ddarpariaeth benodol ar gyfer adeiladu tramffyrdd fel rhan annatod o'r system gamlesi. Gwnaed darpariaeth hefyd i dramffyrdd eraill gael eu hadeiladu ar gyfer unrhyw weithfeydd haearn, chwareli neu bwl glo o fewn wyth milltir (12.87km) i'r gamlas a'i thramffyrdd awdurdodedig. Gwasanaethai Pont-y-pŵl fel canolfan bwysig yn y system hon: roedd tramffordd o Flaenafon a'r Farteg yn cysylltu â man terfyn y gamlas ym Mhontnewynydd, a thramffyrdd eraill yn rhedeg o Lower Race a Blaendâr i'r gamlas ym Mhont-y-moel, a rhwng Pont-y-pŵl a Throsnant. Erbyn 1836, roedd tramffyrdd hefyd yn cysylltu Cwmynyscoy â'r gamlas ym Mhont-y-moel, a oedd wedi datblygu yn ganolfan drafnidiaeth bwysig.

Fodd bynnag, hanes byrhoedlog oedd i'r camlesi. Bron o'r dechrau cafwyd anawsterau yn cyflenwi dŵr i'r gamlas rhwng Pontnewynydd a Phont-y-moel. Efallai mai oherwydd hyn yr estynnwyd tramffordd Trosnant ochr yn ochr â'r gamlas o Bont-y-pŵl i Bont-y-moel yn 1810, a bod tramffordd arall o Bontnewynydd i Bont-y-pŵl wedi'i chwblhau ochr yn ochr â'r gamlas yn 1829. Hefyd, roedd tramffordd yn rhedeg o Efail Osborne neu'r Efail Newydd ym Mhont-y-pŵl i'r Felin Isaf ym Mhont-y-moel. Roedd yn rhedeg yn agos at yr afon drwy safle Gefail y Dref (dangosir y llwybr yn glir ar gynllun 1834 o'r efail),²⁰ a thrwy dwinnel yn y Gerddi Eidalaidd sydd yno erbyn hyn cyn dilyn llinell yr afon unwaith eto.



Uchod: Y sied injan hon yw un o'r unig strwythurau o'r rheilffordd sydd wedi goroesi ym Mhont-y-pŵl (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Gyferbyn: Mae'r ffordd fodern yn dilyn llwybr rheilffordd gynharach, a adeiladwyd yn rhannol dros lwybr Camlas Sir Fynwy (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Goroesodd rhai o'r tramffyrdd hyn hyd at ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae rhai o'r llwybrau hyn wedi'u difodi bron yn llwyr bellach, ac mae eraill wedi goroesi'n rhannol, fel y llwybr ar hyd glan yr afon i Bont-y-moel; mae eraill wedi'u cynnwys mewn ffyrdd modern (y llwybr o Flaendâr), ac mae eraill wedi goroesi fel llwybrau troed (y llwybr o Gwmynyscoy).

Yn 1845 cafodd cwmni'r gamlas Ddeddf Seneddol yn eu galluogi i adeiladu rheilffordd newydd o Gasnewydd i Bont-y-pŵl (Crane Street), i wella eu tramffyrdd, ac ymadael â'r gamlas uwchben Pont-y-moel. Erbyn i'r rheilffordd hon agor i gludo teithwyr yn 1852, roedd y gamlas rhwng Pont-y-pŵl a Phontnewynydd eisoes wedi cau a chaewyd y rhan rhwng Pont-y-moel a Phont-y-pŵl y flwyddyn ganlynol. Erbyn 1854 roedd y rheilffordd yn ymestyn i'r gogledd mor bell â Blaenafon, gan gario traffig mwynau yn ogystal â theithwyr. Erbyn 1855, roedd yr holl dramffyrdd wedi'u newid yn rheilffyrdd lled safonol, a ategwyd yn y pen draw gan reilffyrdd lleol newydd yn gwasanaethu pyllau glo yn y Farteg, Cwmffrwdroer a Chwmnantddu.

Rhedwyd y rheilffordd hon i ddechrau gan gwmni'r gamlas, a ailenwyd yn Gwmni Rheilffordd a

Chamlas Sir Fynwy, ond fe'i gosodwyd ar brydles i'r Great Western Railway (GWR) yn 1875 a'i chyfuno â hi yn 1880. Yn y cyfamser, roedd y GWR wedi adeiladu rheilffordd arall o Gasnewydd i Bont-y-pŵl drwy Gaerllion (fe'i dechreuwyd yn 1865 a'i chwblhau yn 1878), i'r dwyrain o'r rheilffordd gynharach. Roedd y ddwy reilffordd yn croestorri yn Pontypool Road, un filltir (1.6km) o'r dref. Yma hefyd, roedd rheilffordd Cwmni Rheilffordd a Chamlas Sir Fynwy yn cysylltu â Rheilffordd Casnewydd, Y Fenni a Henffordd yn 1853, a redai o Henffordd i Bont-y-pŵl. Rhedwyd y rheilffordd hon yn wreiddiol gan Reilffordd Llundain a'r Gogledd-orllewin (LNWR), a gafodd ganiatâd i adeiladu rheilffordd o Bont-y-pŵl i Reilffordd Dyffryn Taf (TVR) ym Mynwent y Crynwyr yn 1847. Estyniad Dyffryn Taf oedd hwn, ac o Pontypool Road, roedd y rheilffordd hon, a gwblhawyd yn 1858, yn dilyn llwybr y gamlas mor bell â Throsnant. Yna roedd yn parhau i'r gorllewin o Bont-y-pŵl i gyffordd gyda'r TVR ym Mynwent y Crynwyr. Meddiannwyd yr LNWR, a oedd yn gweithredu'r llwybr hwn yn ogystal â'r rheilffordd o Henffordd i Bont-y-pŵl, gan y GWR yn 1863. Roedd gorsafoedd yn Clarence Street a Crane Street yn ogystal ag yn Pontypool Road. Roedd yr holl reilffyrdd wedi cau erbyn diwedd y 1970au ac wedi'u disodli gan ffyrdd.²¹





Heol Osborne, a grëwyd ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg fel llwybr mwy uniongyrchol o ganol y dref (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Yn ogystal â'r systemau trafnidiaeth ddiwydiannol hyn, ac mewn sawl achos yn eu rhagflaenu, roedd rhwydwaith pwysig o ffyrdd. Roedd croesfannau afonydd ym Mhont-y-moel, Pont-y-pŵl a Phontnewynydd yn bwyntiau nodol ar gyfer datblygu aneddiadau a diwydiant, a'r llwybrau sy'n dilyn Cwm Llwyd a Chwm Glyn yn cydgyfarfod yn Nhrosnant. Daeth newidiadau i'r rhwydwaith ffyrdd yn sgîl datblygiadau diwydiannol a threfol, yn cynnwys: ffordd newydd o Hen Ffwrnais i Drosnant yn 1820 (Albion Road), a oedd yn llwybr haws na High Street, y Transh; a ffordd newydd 'to obviate the dangerous declivities in Trosnant',²² o'r hyn a elwir bellach yn Clarence Corner i ben uchaf Rockhill Road yn 1822

(Clarence Street). Crëwyd Heol Osborne ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg i ddisodli'r llwybr drwodd cynharach a redai ger George Street, Wainfelin Road a Merchants Hill i Bontnewynydd.

Ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif, golygai'r gwaith o adeiladu llwybrau newydd pwysig yn lle hen reilffyrdd fod angen newid sylfaenol i'r hen batrwm ffyrdd. Arweiniodd hyn at golli rhai o'r hen gysylltiadau ffordd lleol a chrëwyd rhwystrau mwy rhwng llefydd. Arweiniodd ailddatblygu hefyd at golli rhai ffyrdd lleol, Bridge Street yn fwyaf nodedig, a ddiflannodd o dan safle siop Tesco.

Tirwedd Hanesyddol



'The town is built upon a hill, and the principal street is almost perpendicular and so badly paved that the post lad desired us to alight... we therefore walked up to the marketplace, by a footway more easy of ascent.' ²³

Prif nodwedd cymeriad Pont-y-pŵl yw ei lleoliad hynod yn y cwm. Yn 1801, disgrifiodd Archddiacon Coxe y llwybr o Flaenafon fel a ganlyn: 'the vale is at first a deep and narrow glen, wholly occupied by the torrent, but soon expands, and becomes cultivated... The left side exhibits a succession of neat farmhouses, with small enclosures of corn and pasture, forming recesses in the wood... In the whole valley, which is five miles in length, there is scarcely a foot of land not cultivated, or overspread with wood... approaching Pont y Pool, the vale diminished in breadth, and was closed with the rich and wooded eminences of Pont y Pool park. We soon reached the commencement of the canal, and after crossing it over three stone bridges, descended to the town... The town of Pont y Pool is singularly placed on the edge of a steep cliff, overhanging

the Afon Llwyd, and on the slope of a declivity under impending hills, partly bare, and partly mantled with wood. The line of the canal is seen winding above the town; a rapid torrent, descending from a lake at the foot of the Mynydd Maen, flows under the canal, and rushing impetuously along the outskirts of the town, precipitates itself into the Afon Llwyd, which rolls in an abyss beneath.'

²⁴

Roedd llethrau serth y cwm yn cyfyngu ar ffurf yr aneddiadau, a oedd yn bennaf yn llinellol cyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Roedd yr aneddiadau yn tueddu i osgoi llawr y cwm, lle roedd cyfres o safleoedd gweithfeydd haearn — roedd yr afon gyflym yn ffynhonnell grym dŵr ardderchog. Dim ond yn ddiweddar iawn y datblygwyd tai ar y tir gwastad prin a geir yno. Yn hanesyddol, roedd y dref yn wynebu oddi wrth yr afon, a pharhaodd hyn hyd yn oed ar ôl i ddiwydiant adael. Ni roddodd datblygiadau manwerthu ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif lawer o ystyriaeth i'w drychiad yn wynebu'r afon, a hyd yn oed heddiw, mae'r afon yn amwynder a gaiff ei esgeuluso.

Pont-y-pŵl tua 1830, yn dangos y dref ar ben llethrau serth iawn uwchlaw'r afon (Llyfrgell Genedlaethol Cymru).





Oes oedd cyfyngiadau naturiol cryf ar natur aneddiadau, roedd cyfyngiadau eraill a oedd yn hanesyddol a thrwy law dyn. Dylanwadodd tiffeddiannaeth ar ddosbarthiad y defnydd o dir i raddau helaeth, ac roedd y tir ar ochr ddwyreiniol yr afon wedi'i gadw ar gyfer diddordebau'r teulu Hanbury ac erys yn hynod o glir o ddatblygiadau. Golygai patrwm mwy tameidiog o berchenogaeth ar yr ochr orllewinol y gallai'r dref a'r cyffiniau ddatblygu'n raddol, fesul llain neu fesul cae. Dengys twf y maestrefi i'r gorllewin yn amlwg sut yr ymgorfforwyd y gwaith datblygu yn y patrwm caeau cynharach. Er enghraifft, cae oedd yr ardal ger Albion Road, Upper Bridge Street, Crumlin Street a Lower Park Terrace yn y 1830au — Cae Nicholas, ac fe'i geilw i gof yn Nicholas Street. Yn Waenfelin, roedd Edward Street wedi'i gosod mewn cae cul ac mae Wainfelin Avenue yn nodi ffin â hen gae.

Helpodd llwybrau trafnidiaeth hefyd i lywio'r patrwm anheddu. Mae'n debyg bod y fframwaith anheddu cyntaf yn dilyn ffyrdd hirsefydledig.

Parhaodd y llwybr o Bont-y-moel i Drosnant drwy Bridge Street tuag at Sow Hill a hwn oedd prif echel yr aneddiadau yn yr ardal hon. Roedd y ffordd newydd o Drosnant i Rockhill, a grëwyd yn y 1820au, yn dilyn llwybr y gamlas, a datblygwyd y gofod rhwng yr hen ffordd a'r gamlas yn gyflym, fel y cofnodir yn y map o Bont-y-pŵl yn 1836. Yn yr un modd, mae'n debyg mai hen lwybr drwy'r dref oedd yr un a âi yn wreiddiol drwy Hanbury Road, Commercial Street a George Street, i Waenfelin a Merchants Hill. Dim ond yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg y disodlwyd ei bwysigrwydd pan grëwyd Heol Osborne fel cyswllt mwy hydrin o ganol y dref i Bontnewynydd a Blaenafon (fe'i dechreuwyd gan y Bwrdd Llywodraeth Leol yn 1878). Mae'n debyg bod Crane Street hefyd yn dilyn llwybr ffordd gynharach; mae'n parhau ar ffurf llwybr troed gan ddisgyn yn serth i lawr y bryn islaw Commercial Street ac yn ymochri'n union â'r bont. Roedd y ffordd fodern i fyny'r bryn (Park Road) yn bodoli erbyn 1835, ond efallai mai trefniant cymharol ddiweddar ydoedd er mwyn sicrhau bod y bont yn fwy hygyrch.

Uchod: Tyfodd Waenfelin mewn hen gaeau (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Gyferbyn: Tyfodd Pont-y-pŵl ar ffurf linellol, gan ddilyn y cwm i bob ochr o'r groesfan ger y bont (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Archfarchnad Tesco a'i maes parcio, a adeiladwyd dros lwybr gwreiddiol Upper Bridge Street, ac sy'n dargyfeirio'r llwybr uniongyrchol o Drosnant i Sow Hill (Hawlfraint y Goron: CBHC).



I ffwrdd o ganol y dref i'r gorllewin, mae map o Bont-y-pŵl yn 1836 yn cofnodi patrwm anheddu a oedd yn fwy gwasgaredig, er ei fod yn ymestyn ar hyd ffyrdd o hyd. Roedd twf maestrefol ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn yr ardal hon hefyd yn dilyn gwythiennau a oedd yn bodoli eisoes, ond llanwyd y caeau rhyngddynt. Yn ystod y broses hon, disodlwyd sawl adeilad cynharach yn Sow Hill a Crumlin Street (Wesley Street gynt).

Creodd y gamlas ac yna'r rheilffordd ffiniau rhwng un ardal a'r llall, gan sefydlu rhaniad cadarn rhwng canol y dref a'i maestrefi i'r gorllewin, er enghraifft.

Sefydlwyd y gamlas cyn datblygiadau trefol mawr y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac roedd yn un o'r ffactorau a helpodd i'w hymatal a'u llunio. Wrth i'r gamlas gael ei disodli gan y rheilffordd, ac wrth i'r rheilffyrdd yn eu tro gael eu disodli gan briffyrdd, mae'r ffiniau hyn wedi caledu, gan arwain at fwy o wahaniad rhwng ardaloedd. Mae rhai o'r cysylltiadau gwreiddiol hyn hefyd wedi'u torri, yn fwyaf nodedig y cyswllt uniongyrchol o Drosnant i Sow Hill drwy Upper Bridge Street, sydd bellach wedi'i rwystro gan safle Tesco, a'r llwybr uniongyrchol o ran ddeheuol Pont-y-moel ym Maesderwen i'r groesffordd ger y bont.

Nodweddion Adeiladu



Mae bythynnod cynhenid yn y Transh yn atgof o draddodiadau gwledig (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Cronoleg Adeiladu

Mae hanes trefol hir i'r dref, ond ceir ambell adeilad ynddi sy'n bradychu hyn — yr adeilad cynharaf hysbys sydd wedi goroesi yw'r hen farchnad ŷd a sefydlwyd yn 1731. Datblygwyd tref â nodweddion trefol pendant mewn ardal lle roedd yr aneddiadau a fodolai eisoes yn wahanol iawn. Ceir tystiolaeth o draddodiadau adeiladu gwledig gwasgaredig yn y cyffiniau o hyd — ym Mhont-y-moel, Trefechan a'r Transh, mae rhai adeiladau yn hŷn na'r rhan fwyaf o'r adeiladau o'u hamgylch a chanddynt nodweddion a maint

cynhenid. Dengys ffotograffau cynnar bod mwy o adeiladau o'r fath ar un adeg yng nghanol y dref ac yn Nhrosnant, ond eu bod wedi'u difodi yn sgîl datblygiadau yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif. Fodd bynnag, nid oedd gan bob adeilad a ddifodwyd yn sgîl ailddatblygu nodweddion cynhenid — roedd rhai enghreifftiau nodedig o eiddo trefol sylweddol a gollwyd yn sgîl ailddatblygu a wnaed tua 1900, neu i waith clirio a wnaed yn ystod yr ugeinfed ganrif.



Tai cynnar yn Nhrosnant, a gliriwyd yn sgîl ailddatblygu a wnaed yn yr ugeinfed ganrif (Casgliad Ymddiriedolaeth Amgueddfa Torfaen).

Degawdau cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg oedd y cyfnod cyntaf i adael eu marc go iawn ar nodweddion y dref; ond arweiniodd cyfnod pwysig arall o fuddsoddi ar ddiwedd y ganrif at adeiladu rhai o'i hadeiladau mwyaf trawiadol, ynghyd â'r rhan fwyaf o'r ardaloedd preswyl o amgylch. Dilynwyd hyn gan gyfnod arall o dwf anheddiad yn y 1920au, gyda rhywfaint o waith datblygu hapfasnachol a llawer o gynlluniau tai cyhoeddus. Cafwyd cynlluniau ar gyfer adeiladu rhagor o dai cyhoeddus ar ôl yr Ail Ryfel Byd. Cafwyd datblygiadau tai preifat ar raddfa fach ond yn helaeth gyda'i gilydd hefyd, er enghraifft yn y Transh.

Deunyddiau Adeiladu

Roedd digonedd o gyflenwadau cerrig ar gael yn y cyffiniau, a thywodfaen Pennant oedd y prif ddeunydd adeiladu. Fodd bynnag, nid oedd y garreg hon yn addas ar gyfer gwneud gwaith naddu a phatrymu, ac ni ddechreuodd gael ei ddangos yn agored tan ddiwedd y bedwaredd ganrif ar

bymtheg. Yn draddodiadol, câi cerrig eu gwyngalchu, ond mae'r defnydd o rendr yn nodwedd o draddodiadau adeiladu trefol mwy boneddigaidd. Ym Mhont-y-pŵl, ceir gwyngalch yn achlysurol ar adeiladau atodol, ond mae rendr yn llawer mwy cyffredin. Er gwaethaf gwaith adnewyddu eang, mae adeiladau yn y dref o hyd sy'n dangos eu gorffeniad rendro hanesyddol, gyda phatrymau sgraffellog i efelychu cerrig nadd. Mae gorffeniad rendr hefyd yn gwahaniaethu rhai o'r tai maestrefol cynharaf yn yr ardal o amgylch Nicholas Street a Park Terrace. Dylanwadodd yr adfywiad gothig ar brosiectau adeiladu cymharol werinol hyd yn oed ar ôl tua 1870, a dechreuwyd dangos carreg yn agored mewn datblygiadau masnachol a phreswyl. Mae tywodfaen Pennant yn bodoli'n naturiol mewn amrywiaeth o liwiau. Dangosir hyn yn y dref mewn effaith amryliw ar adeiladau unigol, neu yn y gwaith gofalus o ddod o hyd i gerrig er mwyn sicrhau gorffeniad unfurf, a oedd yn amrywio o un adeilad i'r llall. Gellid trin y garreg yn fras neu adael wyneb o graig er mwyn rhoi effaith arw, gyhyrog.



Chwith pellaf: Cerrig llanw nodedig ar Westy'r Globe (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Chwith: Carreg nadd Bath ar yr hen Fanc Midland (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Cerrig llanw ag wyneb o graig wedi'u cyfuno â brics a terracotta (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Defnyddiwyd rendr yn nodweddiadol mewn prosiectau adeiladu ar ddechrau a chanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Defnyddiwyd brics yn gyffredin hefyd, yn enwedig fel addurniadau ar adeiladau carreg. Ni chawsant eu defnyddio'n aml fel y prif ddeunydd adeiladu tan yr ugeinfed ganrif, er gwaethaf presenoldeb sawl gwaith brics yng nghyffiniau'r dref. Fodd bynnag, ceir rhai enghreifftiau da o'u defnydd, yn cynnwys brics a terracotta gwydrog. Er mai toeon â theils cerrig wedi'u hollti oedd y traddodiad rhanbarthol cynhenid, erbyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg roedd llechi wedi dod yn gyffredin. Maent yn dominyddu'r dref o hyd a phrin yw'r defnydd a welir o ddeunyddiau eraill, hyd yn oed wrth ailosod. Roedd prosiectau mawreddog yn

fwy tebygol o ddefnyddio deunyddiau wedi'u mewnfario; er enghraifft, defnyddiwyd carreg nadd Bath ar gyfer Eglwys y Bedyddwyr Crane Street, ar gyfer Banc Barclays (a adeiladwyd fel Banc y London and Provincial yn 1893), ac ar gyfer Banc Midland yn 1910–11.

Beth bynnag fo'r deunydd, mae'n gyffredin gweld gwahaniaethau rhwng y prif ffasâd a drychiadau'r ochr a'r cefn. Fel arfer caiff ffasadau eu pwysleisio drwy ansawdd y gorffeniad a'r manylion, gyda gorffeniad mwy bras yn cael ei ddefnyddio mewn mannau eraill, ac ar gyfer adeiladau atodol.

Mae gwaith brics addurniadol yn nodwedd drawiadol o'r tai teras hyn (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Dde: Dechreuodd brics ddisodli cerrig fel y prif ddeunydd adeiladu ar ddechrau'r ugeinfed ganrif (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Dde pellaf: Teils cerrig wedi'u hollti oedd deunydd traddodiadol y toeon cyn i lechi gael eu defnyddio'n gyffredin yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Dde: Enghraifft anarferol a lluniaidd o'r defnydd o frics gwydrog (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Dde pellaf: Cerrig gwrthgyferbyniol a ddefnyddiwyd ar gyfer ochrau adeiladau a phrif ffasadau (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Mathau o Adeiladau

Adeiladu Masnachol

Adeilad masnachol o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg mewn traddodiad Sioraidd (Hawlfraint y Goron: CBHC).

*'Demolition of the old Crown Hotel, and erection of fine modern hotel, and great development in Osborne Road, and erection of palatial premises for the London and Provincial bank speak volumes for the go-ahead character of the townspeople.'*²⁵

Wrth iddi ddatblygu yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, daeth Pont-y-pŵl yn ganolfan fasnachol i'w chefnwlad eang, ac mae canol y dref yn ei hanfod yn ardal fasnachol arbenigol iawn lle cafodd pob adeilad bron ei godi ar gyfer masnach, heblaw am y sefydliadau dinesig a chrefyddol.



Chwith pellaf: Adeilad masnachol o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg sy'n defnyddio deunyddiau a ffurfiau amrywiol i greu effaith drawiadol (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Chwith: Mae'r rhes hon ar Heol Osborne yn enghraifft dda o ddatblygiad cynlluniedig ar raddfa fawr (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Mae'r farchnad yn enghraifft ardderchog o ddatblygiad masnachol unigol ar raddfa fawr (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Mae banciau ymysg y datblygiadau masnachol unigol mwyaf trawiadol yng nghanol y dref, pob un â'i arddull unigryw ei hun (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Mae gan adeiladau masnachol eu harddull eu hunain, a cheir amrywiaeth o'r rhain yma. Mae enghreifftiau cynnar yn parchu traddodiad Sioraidd gyda chlasuriaeth gymedrol, cymesuredd ac arwynebau wedi'u rendro'n syml ar y cyfan. Yn nes at ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, nodweddyd arddull fwy mynegiannol gan fwy o fodelu ffasadau, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau a manylion.

Dyma oedd datblygiad cyffredinol ffasiwn bensaernïol ond, o fewn y ffiniau eang hyn, ceir tri phrif wahaniaeth rhwng adeiladau masnachol yn y dref: gall adeiladau fod yn ddatblygiadau unigol heb nodweddion eithriadol, gallant fod yn ddatblygiadau unigol gyda

nodweddion unigol cryf, neu gallant fod yn ddatblygiadau hapfasnachol ar raddfa fawr gyda dyluniad unffurf. Yn y rhan fwyaf o'r dref, adeiladau unigol sydd fwyaf cyffredin gyda phob graddfa a maint sy'n rhoi cryn gymeriad i'r strydlyn, er gwaethaf y ffaith y collwyd llawer o'r manylion gwreiddiol. Mae llawer o'r adeiladau hyn yn gymharol syml eu harddull, ond mae gan Bont-y-pŵl gyfres gain o adeiladau nodweddiadol gyda chymeriad unigol cryf. Rhai o'r enghreifftiau amlycaf yw banciau mewn safleoedd nodedig ar gyffyrdd, wedi'u cynllunio i wneud defnydd llawn o'u safleoedd (HSBC, tua 1910–15; Barclays, tua 1880; a National Westminster, a addaswyd o adeilad swyddfa cynharach yn 1905 ac sy'n gwneud y gorau o'r gyffordd newydd a ffurfiwyd



*Chwith pellaf:
Pensaernïaeth fasnachol
gain The George
(Hawlfraint y Goron:
CBHC).*



*Chwith: Hen Westy'r
Crown (Hawlfraint
y Goron: CBHC).*



*Chwith pellaf: Hen
Westy'r Clarence
(Hawlfraint y
Goron: CBHC).*



*Chwith: Mae hen
adeilad y Co-operative
yn enghraifft ardderchog
o'r arddull art deco
(Hawlfraint y Goron:
CBHC).*



*Chwith pellaf: Mae
adeiladau unigol mewn
arddull unfath yn llunio'r
teras hwn o siopau ar
Heol Osborne
(Hawlfraint y
Goron: CBHC).*



*Chwith: Mae Lion
Buildings yn enghraifft
gynnar o ddatblygiad
masnachol wedi'i
gynllunio fel uned
(Hawlfraint y
Goron: CBHC).*

pan grëwyd Heol Osborne yn 1878). Cynlluniwyd tafarndai a gwestai hefyd yn aml i dynnu sylw. Ymysg yr enghreifftiau da mae: The George (1905), Gwesty'r Crown, a Gwesty'r Clarence. Roedd rhai siopau unigol addurn iawn hefyd, fel Manchester House a hen adeilad art deco y Co-operative. Mae'r farchnad ei hun hefyd yn cynrychioli datblygiad unigol, er ei bod ar raddfa eithriadol.

Mae gan Bont-y-pŵl hefyd enghreifftiau da iawn o ddatblygiadau cynlluniedig ar raddfa fawr o gyfnodau gwahanol, yn benodol y Lion Buildings, a adeiladwyd fel rhes o siopau gan G.V. Maddox o Fynwy yn 1840, a datblygiad Heol Osborne. Mae cynnal neu atgyfnerthu undod hanfodol y

datblygiadau hyn ar un llaw, a pharchu amrywiaeth prosiectau adeiladu unigol ar y llaw arall, yn allweddol i atgyfnerthu nodweddion canol y dref.

Adeiladau Dinesig a Chrefyddol

Mae adeiladau dinesig a chrefyddol yn elfen hynod bwysig o'r olygfa, lle roedd cynllun unigol nodedig yn aml yn adlewyrchu nawdd. Mae hyn yn bendant yn wir am neuadd y dref (1854), Eglwys Sant Iago (1821 a 1854) a'r llyfrgell (1908). Mae'r adeiladau hyn yn nodedig am ddefnyddio deunyddiau a fewnforiwyd, yn aml wedi'u gorffen yn gain; fe'u dyluniwyd gan benseiri enwog, yn aml o'r tu allan i'r ardal, a oedd yn defnyddio

Dde: Neuadd y dref, adeilad dinesig pwysig a godwyd yn 1854 (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Dde pellaf: Neuadd Eglwys Sant Iago, a adeiladwyd tua 1910 (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Dde: Y Capel Methodistidd ar Nicholas Street, a adeiladwyd yn 1854 (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Dde pellaf: Y llyfrgell gyhoeddus, a adeiladwyd yn 1908 (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Dde: Ceir enghreifftiau o draddodiadau adeiladu gwledig yma ac acw o hyd ym Mhont-y-pŵl (Hawlfraint y Goron: CBHC).



arddulliau pensaernïol mwy boneddigaidd. Er enghraifft: Cynlluniwyd Eglwys Sant Ioan y Difinydd gan J. Coates-Carter; cynlluniwyd Eglwys Babyddol Sant Alban gan J. J. Scoles; a chynlluniwyd neuadd y dref gan Bidlake a Lovatt o Wolverhampton. Cyflwynodd Eglwys y Bedyddwyr Crane Street yr adfywiad Groegaidd i Bont-y-pŵl yn 1847.

Datblygiad Preswyl

*'Pontypool is a clean town rendered famous by its manufactory of japanned ware. The houses are of stone, whitewashed, covered with stone slate.'*²⁶

Er mai nodweddion trefol sydd i'r dref yn bennaf, mae olion traddodiadau adeiladu gwledig wedi goroesi yn ei chefnwlad; er enghraifft yn Nhwmpath a Gelli-pistyll, y Transh, Park Cottage, St David's Close (Fferm Pen y Garn gynt), a thai amrywiol yn Nhrefddyn.



Enghreifftiau o waith haearn addurniadol (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Adeiladu Preswyl Trefol

Mae'r mwyafrif helaeth o'r adeiladau preswyl sy'n dyddio o gyfnod cyn yr ugeinfed ganrif ym Mhont-y-pŵl a'i maestrefi yn dyddio o'r ddau ddegawd ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Tai teras yw'r rhan fwyaf ohonynt, neu dai rhes a thai pâ; a dim ond nifer gymharol fach o dai a adeiladwyd yn unigol a geir. Ceir hierarchaeth glir o fathau o dai, sy'n amrywio o dai teras llai o faint i filâu cymharol sylweddol; oherwydd y cyfnod adeiladu cyfyngedig, mae cyfres gymharol syml o amrywiadau. Mae'r nifer fach o adeiladau sy'n dyddio o ddechrau i ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg wedi'u rendro fel arfer

ond, ar gyfer y mwyafrif o ddatblygiadau sy'n dyddio o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, fel arfer y deunyddiau adeiladu yw naill ai gerrig llanw ag wyneb o graig a ddefnyddir ar gyfer creu patrymau (yn aml gwaith maen llaw â cherrig ag wyneb o graig wedi'i gyfuno â brics ar gyfer addurniadau), neu frics (a ddefnyddir yn aml fel arwyneb ar adeiladau cerrig llanw). Mae arwyneb y brics a ddefnyddir ar gyfer addurniadau fel arfer yn goch a melyn llachar. Gerddi blaen bach sydd i'r mwyafrif o'r tai, beth bynnag fo'u maint. Mae manylion ffiniau yn nodwedd bwysig iawn yn y dref — valiau cerrig llanw neu frics a phileri clwydi, gyda rheiliau haearn bwrw, yn aml iawn yn addurniadol iawn, ac efallai wedi'u gwneud yn lleol.

Dde: Tai teras bach gydag un ffenestr uchaf (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Dde pellaf: Tai teras gyda dwy ffenestr uchaf (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Dde: Tai teras gyda ffenestri bae (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Dde pellaf: Tai teras mwy gyda ffenestri bae uchder llawn a gerddi mawr (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Enghreifftiau o dai mwy o faint gyda manylion mwy coeth (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Ceir gwahaniaethau ym maint tŷ (un ffrynt sydd i'r rhan fwyaf o dai teras, gyda rhai ohonynt ond yn ddigon llydan i gael un ffenestr i fyny'r grisiau, ond y rhan fwyaf ohonynt gyda dwy), ac yn ansawdd y manylion, fel ffenestri bae ar un llawr neu ddau, triniaeth addurniadol ar y ffasâd, ac ati. Yn aml mae gan dai mwy o faint ffrynt talcennog a chyfansoddiad mwy coeth.

Mae terasau naill ai'n cynnwys cyfres o dai unfath, neu maent yn unedig mewn rhyw ffordd, boed hynny drwy gyfansoddiad cynlluniedig gan ddefnyddio blociau talcennog fel canolbwynt neu ar bob pen, neu gan ddefnyddio manylyn sy'n parhau ar draws o un tŷ i'r llall. Ceir enghreifftiau o dai unfath ar Upper Park Terrace a Clarence Street, ac mae Waenfelin yn llawn enghreifftiau o dai sy'n unedig mewn rhyw ffordd.



Chwith pellaf: Teras syml o dai unfath a ailadroddir (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Chwith: Teras wedi'i gynllunio fel cyfansoddiad cymesur, gyda thalcenni uwch ar bob pen i'r rhes (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Chwith pellaf: Teras syml, gyda'r tai yn unedig drwy fanylion cerrig parhaus (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Chwith ac isod: Tai teras, sydd wedi'u cysylltu drwy fanylion brics cyfoethog (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Ardaloedd â Nodweddion

Mae'n debyg mai yn y ddeunawfed ganrif yr adeiladwyd yr adeilad gwych hwn — fe'i disodlwyd gan The George yn 1905 ((h) The Francis Frith Collection).



I. Canol y Dref

Cefndir Hanesyddol

Mae datblygiad cynnar canol y dref yn aneglur, ond gwyddom fod digon o dref yn bodoli i olygu y gellid sefydlu marchnad ar ddiwedd yr ail ganrif ar bymtheg, ac yna dŷ marchnad ac ystafell gyfarfod wedi'u codi i'r diben yn 1730. Y Farchnad Ŵd yw'r adeilad cynharaf sy'n dal i sefyll yng nghanol y dref. Disodlwyd adeiladau eraill a oedd yn dyddio o'r cyfnod cyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg pan atgyfnerthwyd pwysigrwydd masnachol y dref yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif. Ceir rhai delweddau sy'n rhoi awgrym o'r hyn a gollwyd,

yn cynnwys rhai adeiladau o bwysigrwydd cynhenid, yn ogystal â rhai adeiladau trefol mwy soffistigedig, o'r ddeunawfed ganrif mae'n debyg.

Cynnyrch y twf a gafwyd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg ynghyd ag adnewyddiadau a wnaed yn yr ugeinfed ganrif yw canol modern y dref. Dengys map 1836 bod y rhan fwyaf o'r patrwm strydoedd modern yn bodoli eisoes, gyda dwy brif echel o ddatblygiadau. Un o'r rhain oedd llwybr Commercial Street (Caroline Street yn wreiddiol) a George Street mor bell â phont y gamlas (y gyffordd â Malthouse Lane bellach) a oedd yn llwybr cynnar i fyny'r cwm mae'n debyg, gan fynd felly ar hyd yr hyn a elwir bellach yn Wainfelin Road, gyda llwybr eilaidd yn dilyn glan ddwyreiniol y gamlas. Crane Street oedd yr ail echel, a allai fod wedi bod yn llwybr cynnar arall



yn arwain at groesfan yr afon, lle cofnodir bod pont yn y bymthegfed ganrif. Roedd graddiant hydrin Park Road yn bodoli eisoes erbyn dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Cronnwyd y datblygiadau ar Crane Street uwchlaw'r gyffordd â Commercial Street, ac er iddynt barhau ar draws y gamlas tuag at Sow Hill, roeddent yn fwy tameidiog yno. Prin oedd y datblygiadau ar lawr y cwm, ond roedd yn ardal ddelfrydol i leoli diwydiant. Gwasanaethwyd yr Efail Newydd (Gefail y Dref yn ddiweddarach) gan bwl mawr; a safai gweithfeydd eraill (Gefail wreiddiol y Dref hyd at tua 1831) yn union i'r de-orllewin o Bont y Dref, gyda phibellau bwydo yn cyflenwi dŵr o bwl ar ochr ogledd-orllewinol y ffordd.

Y newidiadau mwyaf radical a wnaed i ffurf y dref oedd disodli'r gamlas, a'r dramffordd wrth ei hochr, gan reilffordd. Nid oedd y rheilffordd yn dilyn llwybr y gamlas yn union, ond o Clarence Corner i Crane Street rhedai rywfaint yn bellach i'r dwyrain, ar hyd ffin eiddo ar St James' Field (crëwyd y ffordd ar ddechrau'r ugeinfed ganrif). Disodlwyd y rheilffordd yn ei thro gan yr A4043

ac mae'n rhaid i ni ddychmygu bod pob newid olynol wedi cyflwyno rhwystr caletach rhwng canol y dref a'r maestrefi i'r gorllewin. Un o'r newidiadau radical eraill oedd creu Heol Osborne ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gan newid cyfeiriadedd y dref i'r gogledd oddi wrth George Street a Wainfelin Road.

Cyfrannodd gwaith ailddatblygu ar ochr ogleddol George Street at y nodweddion a gollwyd yn yr ugeinfed ganrif. Ar ochr orllewinol Heol Osborne, dymchwelwyd y Theatre Royal yn 1960²⁷ a chrëwyd cyswllt ffordd newydd â George Street. Dymchwelwyd sawl tafarn ac Eglwys y Bedyddwyr y Tabernacl a adeiladwyd yn 1836 ar ochr orllewinol Crane Street yn 1960. Yna newidiwyd ochr orllewinol Crane Street yn faes parcio ac fe'i hailddatblygwyd at ddibenion manwerthu yn 2000. Roedd yr ardal hon ar un adeg yn cynnwys sawl cwrt a stryd, a oedd yn cysylltu â phen uchaf George Street. Ni chafodd y cysylltiadau hyn eu hail-greu yn dilyn y gwaith ailddatblygu a chafwyd gwaith ailddatblygu tameidiog mewn mannau eraill hefyd.

Mae'r cyswllt rhwng George Street a Heol Osborne, y datblygiadau manwerthu ar Crane Street a George Street, a maes parcio Riverside yn rhai enghreifftiau o newidiadau a wnaed yn yr ugeinfed ganrif i ganol y dref (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Patrymau datblygu dwys yng nghanol y dref (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Tŷ Glantorfaen — preswylfa fawreddog ar gyrion canol y dref (Hawlfraint y Goron: CBHC).



cyrtiau a lonydd cefn eraill i'r gogledd-orllewin o Crane Street ac yn Rosemary Lane yn sgîl gwaith ailddatblygu modern, er yr agorwyd gofod a llwybrau drwodd rhwng Glantorfaen Road a Market Street hefyd yn sgîl gwaith ailddatblygu modern, ar ôl cau Gorsaf Crane Street. Mae'r adeiladau yn wynebu'r strydoedd yn bennaf, a lle mae drychiadau cefn yn agored i'w gweld, maent yn aml yn amharu ar y treflun. Ymysg yr eithriadau nodedig i hyn mae'r banciau hynny a gynlluniwyd i fanteisio ar safleodd cornel amlwg, a'r tai mawr ar ochr ddeheuol canol y dref (fel Tŷ Glantorfaen).

Nodweddion Adeiladu

Mae canol y dref wedi'i datblygu'n dynn fel cyfres o ffyrntiadau lled barhaus. Prin oedd y gofod ar gyfer adeiladu, ac roedd sawl adeilad yn llenwi eu holl leiniau i bob pwrpas; mae llefydd gwag yn brin, ac mae Gwesty'r Globe yn eithriadol gan fod ganddo iard gefn amlwg. Mae'r iard fechan yng nghefn hen Westy'r Crown yn enghraifft arall o ofod amgaeedig yng nghanol y dref. Collwyd

Caiff canol y dref ei dominyddu gan adeiladau masnachol, ac mae'r prif wahaniaeth rhwng datblygiadau unigol a datblygiadau cynlluniedig unedig. Ceir amrywiaeth mawr o ran maint a graddfa ymysg y datblygiadau unigol, gan amrywio o ffyrntiadau cul i ddatblygiadau mor fawr â hen Westy'r Crown neu Fanc HSBC. Mae'r datblygiadau hyn yn amrywio o tua 1830 i tua 1930 ac arweiniodd y cyfnod cymharol hir hwn o ddatblygu, ynghyd ag amrywiaeth y prosiectau



Chwith: Datblygiadau masnachol nodedig yng nghanol y dref (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Chwith: Patrymau adeiladu amrywiol ar y prif strydoedd (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Chwith pellaf: Enghraifft gynnar o ddatblygiad masnachol cynlluniedig (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Chwith: Enghraifft o ddatblygiad masnachol cynlluniedig o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Chwith: Manylion gwreiddiol sydd wedi goroesi ar Heol Osborne (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Uchod: Cymysgedd o ddeunyddiau ac arddulliau sy'n nodweddu'r datblygiadau ar ochr orllewinol George Street (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Dde: Mae'r defnydd afieithus o ddeunyddiau ar The George yn gwrthgyferbynnu â'r rendro syml a ddefnyddiwyd ar adeiladau cynharach (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Dde pellaf: Ffasadau cerrig nadd Bath adeiladau'r banc y naill ochr i ffrynt neuadd y farchnad gynnar sydd wedi'i rendro (Hawlfraint y Goron: CBHC).

unigol, at wahaniaethau sylweddol yng nghanol y dref. Ceir enghreifftiau ar hyd Commercial Street, lle mae Pearl House a hen siop y Co-operative yn adeiladau art deco o safon, y mae eu maint a'r driniaeth gymharol lem i'w harwynebau yn gwrthgyferbynnu â'r patrwm datblygu tameidiog mewn mannau eraill ar y stryd, sy'n cynnwys adeiladau unigol yn bennaf gyda lloriau o uchderau gwahanol a thriniaethau gwahanol i'w ffasadau. Rhai o'r adeiladau unigol mwyaf nodedig yw'r banciau a'r tafarndai — ymysg y tafarndai, er enghraifft, mae The George a The White Hart.

Mae datblygiadau cynlluniedig unedig hefyd yn nodweddiadol bwysig o ganol y dref, gan amrywio



o ddatblygiad y Lion House o 1840, i ddatblygiad Heol Osborne o tua 1890. Caiff y ddau ddatblygiad eu huno gan rythm manylion y ffasadau — y ffenestri a ailadroddir mewn cilfachau plaen yn Lion House, a chynllun mwy coeth yn Heol Osborne sy'n cynnwys pilastrau, sribyn o fondo parhaus, a llinell o ffenestri bae oriel bas. Mae gwaith tameidiog i adnewyddu'r manylion wedi amharu ar undod y teras hwn, ond erys yn gyfansoddiad cryf iawn.

Mae amrywiaeth yn nhrefniadaeth y gwaith datblygu, a'i gronoleg cymharol hir, wedi arwain at gymysgedd eang iawn o ddeunyddiau. Gorffeniadau rendr a gafwyd ar adeiladau



Chwith: Enghraifft brin sydd wedi goroesi o ffrynt siop gwreiddiol ar Market Street (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Chwith pellaf: Cerrig llanw garw mewn adeilad diwydiannol prin sydd wedi goroesi — rhan o'r hen Castle Brewery (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Chwith: Enghraifft wych o adeilad masnachol o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gyda ffenestri arddangos ar ddau lawr (Hawlfraint y Goron: CBHC).

cynharach canol y dref, y mae rhai ohonynt wedi goroesi (mae ochr orllewinol George Street yn cynnwys enghreifftiau da sy'n frith o adeiladau Edwardaidd ac art deco). Disodlwyd rendr gan gerrig a brics agored yn ddiweddarach yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac mae'r enghreifftiau gorau o hyn ar Crane Street, yn cynnwys y farchnad, Adeiladau'r Jiwbil i a rhai siopau. Yn aml roedd cynlluniau adeiladu o ddechrau'r ugeinfed ganrif yn defnyddio deunyddiau wedi'u mewnforio, er enghraifft faience a charreg Portland.

Er bod ffurf gyffredinol datblygiadau adeiladu o bob math yn parhau i fod yn gryf, mae'r gyfradd gadw ar

gyfer manylion gwreiddiol yn wael, yn enwedig ar lefel y llawr daear. Prin iawn yw'r ffryntiadau siopau cynnar sydd wedi goroesi a dylid eu trysori. Mae'r sefyllfa'n well ar y lloriau uchaf, ac mae llawer o adeiladau wedi cadw eu manylion gwreiddiol ar y lefel hon, yn cynnwys rhai enghreifftiau o ffenestri o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Ar gyrion canol y dref, mae rhai datblygiadau preswyl hefyd wedi goroesi — tai mawr ar y pen deheuol, a chlwtstr o dai teras bach i'r gogledd. Yn yr ardal hon hefyd, ceir un adeilad diwydiannol sydd wedi goroesi, crair o'r Castle Brewery ac enghraifft brin o'r defnydd garw o garreg leol heb unrhyw ymgais i addurno.

*Dde: Neuadd y dref,
Hanbury Road
(Hawlfraint y Goron:
CBHC).*



*Dde pellaf: Mae cynllun
eang adeiladau ymysg
gwyrddni yn
nodweddiadol o Hanbury
Road (Hawlfraint y
Goron: CBHC).*



*Dde: Tŷ cain o
ddechrau'r ugeinfed
ganrif, a adeiladwyd fel
y ficerdy i Eglwys Sant
Iago (Hawlfraint y
Goron: CBHC).*



2. Hanbury Road

Cefndir Hanesyddol

Mae canol tref Pont-y-pŵl wedi parhau i fod hollol ar wahân i Drosnant, ac mae nodweddion nodedig Hanbury Road yn diogelu'r gwahaniad hwn. Mae'n bosibl i'r teulu Hanbury gael perchenogaeth o'r tir yn y fan hon yn gynnar ac na chafodd ei ryddhau i gael ei ddatblygu. Yn bendant y teulu Hanbury a ariannodd y gwaith o adeiladu neuadd y dref yma yn 1854, ac efallai eu bod wedi rhoi nawdd ar gyfer Eglwys Sant Iago, a adeiladwyd yn wreiddiol yn 1821. Yn yr ugeinfed ganrif, roedd y datblygiad yn dal yn gyfyngedig, wedi'i gyfyngu i adeiladau dinesig a chrefyddol, a datblygiadau preswyl bach.

Nodweddion Adeiladu

Caiff Pont-y-pŵl nodweddion helaeth o'r gwaith o grwpio adeiladau dinesig a chrefyddol ar hyd Hanbury Road a'r cyffiniau, nid yn unig o gynllun cryf adeiladau unigol, ond hefyd o'r ehangder sy'n nodwedd ohonynt. Yn wahanol i ganol y dref a Throsnant, mae'r adeiladau dinesig a chrefyddol yma wedi'u lleoli mewn lleiniau unigol wedi'u diffinio'n glir, ac fe'u cynlluniwyd i gael eu gweld o fwy nag un safle. Cawsant eu cynllunio'n unigol, yn aml gan benseiri enwog, maent wedi mabwysiadu arddulliau pensaernïol cryf, a chaiff eu hunaniaeth ei hatgyfnerthu gan y defnydd o ddeunyddiau egsotig. Mae'r datblygiad tai bach ar St James' Field yn grŵp da o filâu sy'n nodweddiadol o Bont-y-pŵl, ac mae eu ffasadau brics yn frith o ffenestri bae, talcenni a manylion addurniadol.



3. Trosnant

*'Trosnant is the most ancient part of Pontypool and contains many dwellings, mostly cottages of great age.'*²⁸

Cefndir Hanesyddol

Yn gyffredinol ystyrir mai Trosnant oedd un o'r canolbwyntiau anheddu cynharaf yn yr ardal, a'i fod yn safle i un o'r gweithfeydd japanio cynnar yn y ddeunawfed ganrif. Mae map 1836 yn ei ddangos fel anheddiad ar wahân, bron mor fawr â thref Pont-y-pŵl. Mae ei brif echel ar linell yr hyn a elwir yn Bridge Street erbyn hyn, a arferai barhau ar draws y gamlas i Sow Hill. Difrodwyd pob synnwyr o strydlyn cydlynol yma yn sgîl gwaith clirio sylweddol yn ail hanner yr ugeinfed ganrif, ond dim ond yn sgîl creu'r A4043 ac archfarchnad Tesco yn ddiweddarach y cafodd yr hyn a fu unwaith yn llwybr drwodd pwysig ei ddifodi'n llwyr. Cafwyd rhywfaint o ddatblygiad hefyd ar hyd yr hyn a elwir yn Clarence Street bellach mor bell â'r Clarence Inn, ond mae'n debyg bod y rhan i'r gorllewin o Bridge Street yn dyddio o'r adeg y crëwyd y ffordd newydd i Rockhill yn 1820. Roedd y ffordd newydd

hon (Clarence Road) yn ystumio o amgylch tuag at Bont-y-moel, gan ddilyn llinell y gamlas yn agos. Roedd i bob pwrpas yn osgoi'r llwybr drwodd gwreiddiol (Bridge Street a Trosnant Street), a gafodd ei dorri yn y pen draw drwy ddatblygu maes parcio'r ganolfan hamdden. Gwnaed gwaith datblygu pellach rhwng Bridge Street a Clarence Road, yn cynnwys tai a melin ŷd, yn ôl pob tebyg wedi'i phweru gan Nant Glyn. Yn ddiweddarach yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg sefydlwyd gweithfeydd nwy y dref ar yr hyn a arferai fod yn dir agored i'r dwyrain o'r lôn hon.

Roedd gan Drosnant safle canolog yn y cwm, wedi'i leoli wrth ymyl y prif lwybr trwodd, ac ar gyffordd gyda'r hyn a fyddai'n datblygu i fod yn brif lwybr i mewn i ganol y dref. Atgyfnerthwyd y safle hwn drwy greu Albion Road ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg fel llwybr uniongyrchol i'r dref o'r gorllewin. Atgyfnerthwyd y cysylltiadau lleol hyn gan y gamlas ac yn ddiweddarach y rheilffordd; Gorsaf Clarence Street oedd un o dair gorsaf a oedd yn gwasanaethu Pont-y-pŵl. Collwyd rhywfaint o'r cysylltedd hwn pan gaewyd y rheilffyrdd yn yr ugeinfed ganrif a phan ddisodlwyd eu llinellau gan ffyrdd newydd, yn ogystal â phan gollwyd y llwybr drwodd gwreiddiol ar hyd Bridge Street.

Trosnant cyn iddo gael ei ailddatblygu yng nghanol yr ugeinfed ganrif (Hawlfraint y Goron: Y Weinyddiaeth Amddiffyn).

Dde: Hen Westy'r Clarence (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Dde pellaf: Manylion modern ar adeiladau o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ar Clarence Street (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Dde: Patrymau adeiladau hanesyddol yn Nhrosgnant, yn edrych yn fach wrth ymyl datblygiad archfarchnad Tesco (Hawlfraint y Goron: CBHC).





Chwith pellaf: Tai mawr yn Cwm Fields (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Chwith: Llwybr cynnar Bridge Street (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Chwith: Cwm Fields, mewn rhwydwaith o lwybrau hanesyddol a modern (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Cyfyngedig oedd y twf a gafwyd yn Nhrosnant ar ôl canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, er y cafwyd rhywfaint o waith atgyfnerthu mewn ardaloedd a oedd eisoes wedi cael eu datblygu. Sefydlwyd llinell adeiladu barhaus ar ochr orllewinol Clarence Street, er enghraifft, a chafwyd rhywfaint o waith ailadeiladu, fel y gwaith a wnaed ar Westy'r Clarence. Gwnaed gwaith clirio sylweddol yn yr ugeinfed ganrif yn yr hyn a fu ar un adeg yn ardal breswyl a ddatblygwyd yn gymharol ddwys, i'r fath raddau fel y collwyd ffocws gwreiddiol y datblygiad i bob pwrpas.

Yn y cyfamser, creodd datblygiad preswyl newydd ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a

blynnyddoedd cynharaf yr ugeinfed ganrif aneddiadau dibynnol. Un o'r rhain oedd y datblygiad llinellol ar hyd Clarence Road; un arall oedd yr ardal fechan i'r gogledd o Cwm Fields rhwng y ddwy linell reilffordd. Yn yr ardal hon crëwyd maestref fechan, gyda'i phatrwm strydoedd yn seiliedig ar lôn a oedd yn bodoli eisoes o Flaendâr (Victoria Road), llwybr a oedd yn croesi'r rheilffordd yng Ngorsaf Clarence Street, a thramffordd o Gwmynscoy (School View). Er bod y rhwydwaith o ffyrdd modern (yr A472) wedi torri'r cyswllt o hen ffordd Blaendâr i Bont-y-moel, mae'r llwybr i safle Gorsaf Clarence Street yn Clarence Place wedi goroesi fel pompren.

Dde: Hen Dŷ Cwrdd y Crynwyr, Bridge Street (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Dde pellaf: Tŷ Trosnant (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Dde: Manylion gwreiddiol prin ar Clarence Street (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Dde pellaf: Mae Eglwys y Bedyddwyr yn Nhrosnant Uchaf yn dyddio'n ôl i 1826 (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Nodweddion Adeiladu

Cofnodwyd sawl adeilad cynnar gyda nodweddion cynhenid amlwg yn Nhrosnant. Bellach dim ond un sydd wedi goroesi — y bwthyn bach ar hen lwybr Bridge Street. Erys elfennau o nodweddion cynhenid yn yr adeiladau allan rhwng Trosnant Street a Bridge Street, gyda'u gorffeniad gwyngalch garw.

Mewn mannau eraill ar Bridge Street, dim ond datblygiadau tameidiog sydd wedi goroesi, yn cynnwys Tŷ Trosnant a hen Dŷ Cwrdd y Crynwyr sy'n dyddio o tua 1800. Adlewyrchir rôl Clarence Street fel rhan o'r brif echel drwy'r dref yn y patrwm datblygu cymharol ddwys yma, lle mae

llinellau adeiladu parhaus yn cynnwys cyfres o ddatblygiadau unigol ar raddfa fechan. Cyflwynodd gwaith gorchuddio helaeth yn y 1980au fanylion ffryntiadau siop o safon wael ar Clarence Street, ond erys olion nodweddion cynnar, yn cynnwys pilastrau ar y bloc gyferbyn â Bridge Street, render sgrafellosg ar rif 10, a manylion ffryntiad siop a phibellau dŵr ar rif 21B.

Ar Rockhill Road, mae'r tai o ddechrau'r ugeinfed ganrif yn nodweddiadol o Bont-y-pŵl: tai teras gyda manylion i'w huno, neu wedi'u llunio fel cyfansoddiad gan ddefnyddio talcenni ar ben pob rhes.



*Manylion pensaernïol
coeth yn Cwm Fields
(Hawlfraint y Goron:
CBHC).*

Mae'r datblygiad i'r gogledd o Cwm Fields o amgylch Victoria Road yn ardal anheddu gymharol gydlynol gyda'i heglwys fechan ei hun. Mae'n cynnwys amrywiaeth arbennig o dda o fathau o dai, yn cynnwys rhai filâu sylweddol mewn gerddi mawr; a adnabyddir drwy eu maint a'r bensaernïaeth drawiadol. Ceir hefyd rai enghreifftiau da o dai teras a gysylltir drwy'r defnydd o fanylion brics amryliw cryf neu fel cyfansoddiadau cynlluniedig. Nid dim ond ar gyfer addurno y defnyddir brics yma, ond hefyd fel y prif ddeunydd adeiladu yn y tai mwy ac yn un o'r terasau llai.



Parc Pont-y-pŵl
(Hawlfraint y Goron:
CBHC).

4. Parc Pont-y-pŵl

Cefndir Hanesyddol

*'The mansion is singularly situated at the extremity of the grounds, a small distance from the town, which (though seated on the perpendicular of the cliff, rising from the opposite bank of the Avon) is so judiciously concealed by plantations of oak, beech, and poplars, that scarcely a single house is discerned.'*²⁹

Parc Pont-y-pŵl oedd plasty'r teulu Hanbury a ddatblygodd ddiwydiannau yn yr ardal o tua 1576, ond ni wnaethant sefydlu preswylfa yma tan ddiwedd yr ail ganrif ar bymtheg. Mae'n bosibl bod tir ar ochr ddwyreiniol yr afon wedi ffurfio rhan o brydles tir wreiddiol Richard Hanbury ar ddiwedd yr unfed ganrif ar bymtheg, gan y byddai wedi bod yn ffynhonnell dda o goed ar gyfer golosg; ond ni ddaeth y gweithfeydd haearn a sefydlwyd yma yn 1575–76 i ddwylo'r teulu Hanbury tan ddiwedd yr ail ganrif ar bymtheg. Roedd Capel Hanbury yn prynu tir ar gyfer y parc yn 1677 a 1689, ac adeiladwyd y tŷ cyntaf tua 1694; cafodd ei ehangu a'i addasu yn llwyddiannus

yn 1752–65, 1800–10 a 1872. Crëwyd parc ceirw tua 1700 gan yr Uwchgaptin John Hanbury, ac roedd y brif lôn o'r gatiau ym Mhont Pont-y-moel yn bodoli erbyn tua 1720. Gwnaed newidiadau amrywiol i gynllun a nodweddion y parc a'r ardd yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ymysg y pwysicaf o'r rhain roedd: symud y gweithfeydd haearn o'u safle gwreiddiol ar ochr ogleddol yr afon (i'r gorllewin o safle'r ganolfan hamdden erbyn hyn) yn 1831, ailadeiladu'r gatiau mynediad, ac adeiladu clawdd i blannu coed er mwyn cuddio'r tŷ a'r parc o olwg y dref. Rhai o'r elfennau pwysig eraill o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn y parc yw'r Gerddi Americanaidd, a sefydlwyd yn 1851, a'r gerddi llysiau, a oedd wedi'u sefydlu erbyn y 1880au. Arweiniodd perchenogaeth gyhoeddus o'r tŷ a'r parc yn 1920 at gyfnod arall o newid, wrth i'r tŷ ddod yn ysgol a gwnaed ychwanegiadau hamdden amrywiol i'r parc: cyrtiau tennis (1924), lawnt fowlio (1925), cae rygbi (1925), a bandstand (1931). Datblygwyd y gerddi llysiau yn rhannol er mwyn adeiladu tai, a lleolwyd datblygiad tai cyhoeddus mawr ym Mhenygarn ar dir a fu unwaith yn rhan o'r parc. Ychwanegwyd y ganolfan hamdden a'r llethr sgïo yn 1974.



Nodweddion Adeiladu

Mae cyfnodau olynol yn hanes y tŷ wedi gadael eu hôl, er mai gwaith Capel Hanbury Leigh ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg sydd fwyaf amlwg, pan gafodd y tŷ ei ailfodelu ac y newidiwyd ei gyfeiriadedd, ac ef oedd hefyd yn gyfrifol am adeiladu'r stablau yn ogystal â gwaith a wnaed yn y parc ei hun. Ymysg y gwaith a wnaed yn yr ugeinfed ganrif, a oedd yn gysylltiedig â pherchenogaeth gyhoeddus, roedd ychwanegiadau i'r tŷ mewn perthynas â'i ddefnydd newydd fel ysgol, yn ogystal â datblygiadau o fewn y parc ei hun. Ymysg elfennau pensaernïol pwysig y parc mae'r Gell Feudwy, y tŷ iâ, a muriau'r gerddi llysiau (er eu bod wedi'u hesgeuluso, mae'r rhain yn gyfan i bob pwrpas). Datblygiad mawr o'r 1920au gan yr awdurdod lleol yw ystad Penygarn. Heibio iddo, mae'r Gerddi Americanaidd wedi goroesi fel gardd goed bwysig o ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

5. Pont-y-moel

Cefndir Hanesyddol

Mae'n debyg mai Pont-y-moel oedd un o'r canolfannau cyntaf ar gyfer gweithgaredd diwydiannol ac aneddiadau cysylltiedig yn yr ardal, er mae'n debyg mai ym Mharc Pont-y-pŵl y lleolwyd y gweithfeydd haearn eponymaidd. Sefydlwyd y gweithfeydd tunplat cyntaf ym Mhont-y-moel ar ddechrau'r ddeunawfed ganrif, yn yr hyn a elwir yn Hen lard yr Ystad erbyn hyn mae'n debyg, a sefydlwyd y gweithfeydd yn y Felin Isaf, a oedd yn ei gyflenwi, yn y 1720au. Yn 1807, agorodd gwaith gweithgynhyrchu tunplat mawr arall (Gwaith Tun Pont-y-moel) i'r de-orllewin o'r bont; cafodd ei gau yn 1960. Roedd tramffordd yn cysylltu'r safle hwn â'r gweithfeydd yn y Felin Isaf (roedd yn rhedeg ar lwybr y lôn gefn i gefn Heol y Ffynnon ac mae'n debyg ei bod yn barhad o'r dramffordd o ogledd canol y dref), ac roedd pibell fwydo yn cludo dŵr o'r afon i'r Felin Isaf. Mae'r twneli a oedd yn mynd â'r dramffordd a'r bibell fwydo o dan y gamlas wedi goroesi, ac mae un adeilad (a philer giât) wedi goroesi ar safle Gweithfeydd Tun Pont-y-moel.

The Rustic Lodge yn y Gerddi Americanaidd, a adeiladwyd yn 1841 (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Uchod: Adeiladwyd y tolldy ar gyffordd Camlas Sir Fynwy a Chamlas Brycheiniog a'r Fenni (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Dde: Yr adeilad olaf sydd wedi goroesi ar safle Gweithfeydd Tun Pont-y-moel (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Roedd Pont-y-moel hefyd yn safle cyfnewid pwysig, nid yn unig fel croesfan dros yr afon ac yn gyffordd i lwybrau o'r gogledd i'r de ac o'r dwyrain i'r gorllewin, ond hefyd fel cyffordd i Gamlas Sir Fynwy a Chamlas Brycheiniog a'r Fenni i'r de-ddwyrain. Yma hefyd terfynai tramffyrdd o Gwmynyscoy a Blaendwr gerllaw'r gamlas i'r de-orllewin o groesfan yr afon. Aflonyddodd y gwaith o adeiladu'r Great Western Railway ar lwybr y gamlas ar y cysylltiad hwn, ond ni wnaeth ei ddinistrio'n

llwyr — yn wir aed â'r ffyrdd a oedd yn cydgyfarfod yma o Gwmynyscoy a Phenyrrheol o dan y rheilffordd gan ddefnyddio cyswllt newydd, gan greu croesffordd lle roedd Heol y Ffynnon yn croesi Rockhill Road. Mae'r broses o greu'r A472 ar lwybr y rheilffordd, a gwelliannau eraill ar y briffordd, wedi gwneud difrod sylweddol i gysylltiadau lleol, gan ynysu ardal Maesderwen a thorri ar draws llwybr gwreiddiol Heol y Ffynnon a Rockhill Road.

Roedd yr ardal hon yn ffocws naturiol ar gyfer aneddiadau, a cheir cnewyllyn bach o adeiladau cymharol gynnar ar waelod Rockhill Road, er y collwyd llawer ohonynt yn yr ardal hon. Un o'r rhai sydd wedi goroesi yw tŷ ffurfiol o'r ddeunawfed ganrif, y credir iddo ddod yn gyfnewidfa i Gwmni Camlas Sir Fynwy ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg; mae'r teras cyfagos yn enghraifft anarferol o ffurfioldeb dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Prin oedd y datblygiadau preswyl yma tan y 1920au, pan oedd tai teras yn cysylltu'r cnewyllyn hwn â'r canolbwynt eilaidd ar gyffordd y camlesi.



Chwith pellaf: Tŷ o'r ddeunawfed ganrif, y credir iddo gael ei ddefnyddio fel cyfnewidfa Cwmni Camlas Sir Fynwy yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gyda thai teras o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg y tu hwnt iddo (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Chwith: Tŷ cynhenid bach wrth groesfan yr afon ym Mhont-y-moel (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Chwith pellaf: Adeilad cynhenid cynnar ym Maesderwen (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Chwith: Grŵp o dai a adeiladwyd tua 1845 yn ystad Parc Pont-y-pŵl (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Nodweddion Adeiladu

Prif ganolbwynt anheddiad Pont-y-moel oedd y gyffordd ger croesfan yr afon. Yma mae un bwthyn cynhenid bach wedi goroesi, ynghyd â grŵp llawer mwy mawreddog sy'n cynnwys yr Hen Gyfnewidfa a rhifau 64–72 Rockhill Road. Er gwaethaf y ffaith bod manylion wedi'u newid yn sylweddol, erys olion y rendr sgrafello gweiddiol ar y grŵp hwn, a gwelir cynllun ffurfiol sy'n dangos statws. Roedd y gyffordd yn fwy amlwg unwaith, gyda thai ar ochr arall y ffordd a ddisodlwyd ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif gan ddatblygiadau masnachol ar linell wahanol. Mae tai cyhoeddus (o'r 1920au) yn cysylltu'r ardal hon gyda Hen lard yr Ystad, lle mae hen adeiladau diwydiannol amrywiol a rhes o fythynnod o'r ddeunawfed ganrif neu ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg efallai wedi goroesi, er eu bod wedi'u haddasu'n sylweddol. Ceir canolbwynt pwysig arall i'r gwaith datblygu cynnar ym Maesderwen, lle roedd cysylltiad ffordd uniongyrchol â gweddill Pont-y-moel ar un adeg.

6. Heol Osborne

Cefndir Hanesyddol

Datblygiad o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg yw Heol Osborne. Dechreuwyd ar y gwaith yn 1878 ac mae map Arolwg Ordnans 1882 yn dangos dechrau'r gwaith datblygu ar hyd ei llwybr. Mae'r dyddiadau ar yr adeiladau eu hunain yn dangos y gwnaed llawer o'r gwaith datblygu yn y 1890au a'i fod wedi'i gwblhau bron erbyn 1901. Crëwyd ail gyswllt â George Street tua 1970.

Disodlwyd George Street — Merchants Hill gan Heol Osborne fel y prif lwybr ffordd i fyni'r cwm, a chafodd hithau ei disodli pan grëwyd yr A4043 ar lwybr yr hen reilffordd yn y 1970au. Fe'i torrwyd hefyd drwy greu ail ffordd — Riverside — yng ngwaelod y cwm. Gallai'r rhan ogleddol o'r ffordd heibio i'r gyffordd â Riverside fod wedi bod yn llwybr a oedd yn bodoli eisoes, y dramffordd o Bontnewynydd i Bont-y-pŵl efallai, a adeiladwyd yn 1829 ac a redai ar hyd ochr y gamlas.



Uchod: Mae'r datblygiad llinellol o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg ar hyd Heol Osborne yn gwrthgyferbynnu â'r cynllun mwy damweiniol a fabwysiadwyd ar gyfer tai diweddarach ar lawr y cwm (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Dde: Mae grwpiau o dai a luniwyd yn ofalus yn nodweddiadol o ddatblygiadau ar Heol Osborne (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Oddi tan y ffordd roedd Gefail y Dref gyda'i phwll mawr yn gyflenwad dŵr a, Gefail Osborne, ger y bont ym Mhontnewynydd. Datblygwyd ac ailddatblygwyd llawr y cwm ar gyfer adeiladu tai a maes parcio aml-lawr yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif — collwyd holl olion y diwydiant a oedd yno o'u blaen.

Nodweddion Adeiladu

Ceir nodweddion cryf a chydlynol iawn ar Heol Osborne, a gaiff ei huno gan iddi gael ei datblygu mewn un cyfnod a'i defnydd cyson o gerrig, sef cerrig llanw ag wyneb o graig gydag addurniadau brics yn bennaf. Yn y pen sydd agosaf at ganol y dref, ceir enghraifft dda o ddatblygiad masnachol unedig

ar raddfa uchelgeisiol, a chapel cain a adeiladwyd yn 1905. Yna mae siopau llai wedi'u hadeiladu'n bwrpasol o feintiau amrywiol gyda ffenestri bae ar y lloriau uchaf a rhai ffryntiadau siopau sydd wedi goroesi yn gwneud lle i ddatblygiadau preswyl. Mae hyn yn cynnwys amryw o fathau o dai, yn cynnwys filâu pâr gyda ffryntiadau talcennog a ffenestri bae weithiau, neu derasau bach heb ffenestri bae ond gyda manylion syml (er enghraifft, brics wedi'u paentio o amgylch drysau a ffenestri). Nodweddir rhesi eraill gan addurniadau parhaus — stribedi o frics yn cysylltu pob tŷ, er enghraifft, neu, mewn un achos, patrwm a ailadroddir o ffenestri bwaon pigfain a thri thalcen ar gyfer pob pâr o dai yn y rhes. Mae gan lawer o'r tai erddi blaen bach ac erys manylion ffiniau da ar lawer ohonynt.



Chwith pellaf; Mae tai teras bach yn nodweddiadol o ben gogleddol Heol Osborne (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Chwith: Dehongliad modern diddorol o dai teras (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Tai cyhoeddus a adeiladwyd rhwng y ddau ryfel ym Mhenygarn (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Ac eithrio un tŷ gothig mawr, ar ran ogleddol y ffordd ceir terasau llai gyda manylion cyfyngedig. Ceir dehongliad modern diddorol o'r teras ar safle'r Drill Hall.

7. Penygarn ac i'r Dwyrain o'r Afon

Cefndir Hanesyddol

Prin oedd y datblygiadau a gafwyd ar ochr ddwyreiniol yr afon hyd at yr ugeinfed ganrif. Tirwedd amaethyddol oedd yma yn ei hanfod, gyda gweithgarwch diwydiannol ar raddfa fach (chwarel) wrth yr afon, a phatrwm o goetir a chaeau i'r gogledd o'r ffordd o bont Pont-y-pŵl i Eglwys ganoloesol Sant Cadog. I'r de o'r ffordd, dim ond Fferm Pen y Garn a dorrai ar ehangder Parc Pont-y-pŵl. Cyflwynwyd datblygiadau bach yn raddol ar y tirwedd hwn a oedd yn amaethyddol yn bennaf yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Mae'n debyg mai Capel y Bedyddwyr oedd un o'r adeiladau cyntaf a adeiladwyd yma, ac yna Goleg y Bedyddwyr (yr Ysgol Ganolradd yn ddiweddarach) yn 1835. Dim ond yn yr ugeinfed ganrif y cafwyd datblygiadau preswyl ar unrhyw raddfa yma. Mae Hen Penygarn yn ddatblygiad rhyfedd o ynysig sy'n cynnwys terasau bach a rhai filâu mawr nodedig. Efallai mai bwriad ei ddatblygwyr oedd creu maestref fwy sylweddol yma ond, os felly, ni lwyddodd i wneud hynny. Dim ond ar ôl i'r cyngor gaffael y parc y gwelwyd datblygiad o unrhyw werth — cynllun tai cyhoeddus mawr yw Penygarn a sefydlwyd yn y 1920au a'r 1930au, gyda datblygiad hapfasnachol bach ar ei ymyl deheuol.

Nodweddion Adeiladu

Ger yr afon, mae'r clwstwr o adeiladau yn Woodhouse yn cynnwys tŷ rheolwr yr efail a bythynnod cysylltiedig, sef yr unig enghraifft o anheddiad diwydiannol bron ar lan dwyreiniol yr afon. Mae Fferm Pen y Garn wedi goroesi fel Park Cottage.



Uchod: Patrymau stryd a chynlluniau adeiladu nodedig ym Mhenygarn (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Dde: Manylion pensaernïol o safon yn Hen Penygarn (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Datblygiad sy'n dyddio o tua 1905 yw Hen Penygarn; mae ei derasau yn nodweddiadol o Bont-y-pŵl, ond mae'r tai mwyaf yn nodedig iawn ac wedi goroesi'n dda. Mae Penygarn yn enghraifft dda o ddatblygiad tai cyhoeddus, gyda'i gynlluniau gofalus a'i ddefnydd o amrywiaeth gyfyngedig o fathau o dai wedi'u cyfuno mewn grwpiau o ddau neu bedwar. Rendir plastr garw a geir yma yn bennaf, er ei bod yn bosibl

i hyn gael ei wrthgyferbynnu â gwaith brics agored yn wreiddiol. Er nad oes llawer o fanylion gwreiddiol wedi goroesi, ceir cymeriad cydlynol i'r ystad o hyd.

8. Sow Hill

Cefndir Hanesyddol

Dengys map 1836 o Bont-y-pŵl bod datblygiadau sylweddol yn yr ardal hon eisoes. Mae patrwm cymhleth o ffyrdd yn awgrymu y datblygwyd ar hyd llwybrau cynharach a ffiniau caeau, gyda ffordd newydd o'r Hen Ffwrnais i Drosnant (Albion Road) ar raddiant mwy hydrin na'r llwybr cynharach, a redai ar hyd High Street yn y Transh. Roedd y gwaith datblygu wedi'i gronni ar hyd y llwybr cynharach hwn ac ar Crumlin Street (a alwyd yn Wesley Street bryd hynny). Erbyn 1881, roedd yr ardal hon wedi'i hehangu'n sylweddol ac roedd strydoedd newydd wedi'u sefydlu mewn hen gaeau. Mae'n debyg i'r



Dangosir patrymau datblygu arloesol yn yr olygfa hon o ganol yr ugeinfed ganrif (Hawlfraint y Goron: Y Weinyddiaeth Amddiffyn).



Hen dŷydd wedi goroesi ar Heol Twmpath (Hawlfraint y Goron: CBHC).

gwaith datblygu ddechrau yma yn y 1850au (adeiladwyd Capel y Methodistiaid Wesleidd yn 1854), yn union ar ôl adeiladu'r rheilffordd, a oedd yn ffin gadarn i'r dwyrain. Erbyn 1881, datblygwyd Upper Bridge Street (Pound Lane yn wreiddiol), Park Terrace ac Albion Road, ynghyd â phen uchaf Nicholas Street. Ugain mlynedd yn ddiweddarach roedd Nicholas Street wedi'i chwblhau, ynghyd â John Street

a Capel Street. Erbyn 1881 hefyd, cafwyd gwaith datblygu arall i'r gorllewin o amgylch Gwent Street ac, ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, cafwyd gwaith ehangu i'r gorllewin o amgylch Heol Twmpath. Cyflwynodd cynlluniau tai o ganol yr ugeinfed ganrif gynlluniau manwl, a oedd yn gwrthgyferbynnu â phatrymau mwy anffurfiol aneddiadau hanesyddol yn yr ardal.

Dde: Cyfansoddiad cymesur ar Upper Park Terrace (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Dde pellaf: Manylion clasurol anarferol (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Dde a dde pellaf: Mae gorffeniadau modern yn amharu ar safon y tai teras hyn o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, a oedd wedi'u rendro'n wreiddiol, ond erys rhai manylion gwreiddiol da arnynt o hyd (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Dde: Enghraifft sydd wedi goroesi o rendr sgrafelloog (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Nodweddion Adeiladu

Prin iawn yw'r enghreifftiau o'r aneddiadau cynnar sydd wedi goroesi y tu hwnt i'r datblygiadau maestrefol cynhwysfawr yn yr ardal hon o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg ymlaen, ond mae un enghraifft gynnar bwysig wedi goroesi yn Fferm Twmpath, ynghyd â llond llaw o adeiladau cynhenid bach ar High Street yn y Transh. Ymysg y datblygiadau preswyl o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg mae rhai tai o ganol y ganrif gyda'u nodweddion nodedig eu hunain. Cyn tua 1880, defnyddiwyd rendr yn gyffredin fel gorffeniad ar adeiladau carreg ac, ar Upper Park Terrace, Upper Bridge Street a phen uchaf Nicholas Street, mae rhai tai wedi cadw eu rendr sgrafelloog gwreiddiol. Nodweddir sawl datblygiad yma gan y defnydd o fanylion gor-glasurol, gyda fframiau drysau pedimentog. Mae datblygiadau diweddarach yn fwy nodweddiadol o derasau ym Mhont-y-pŵl, gydag addurniadau cerrig llanw a brics agored.

Mae Park Terrace yn sefyll allan am ansawdd y manylion a'r cyfansoddiad yn Upper Park Terrace, ynghyd â'r tai mawr yn Lower Park Terrace gyda'u ffenestri bae a'u talcenni. Mae'r datblygiad diweddarach ar Heol Twmpath yn dilyn thema allweddol tai ym Mhont-y-pŵl — mae ei thai pâr a'i therasau wedi'u cyfansoddi'n ofalus fel grwpiau cynlluniedig. Mae'r holl ardal yn cynnwys cymysgedd diddorol o fathau gwahanol o dai.



Tai o safon ar Park Terrace (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Tai pêr nodedig ar Heol Twmpath (Hawlfraint y Goron: CBHC).





Uchod: Waenfelin o ochr arall y cwm (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Dde: Tŷ cynnar sydd wedi goroesi yn Waenfelin (Hawlfraint y Goron: CBHC).

9. Waenfelin

Cefndir Hanesyddol

Ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd yr ardal i'r de-orllewin o'r dref yn amaethyddol yn bennaf, gyda phatrwm o gaeau bach ac aneddiadau gwasgareddig. Arferai'r prif lwybr i'r gogledd o Bont-y-pŵl ddod drwy'r ardal hon. Wainfelin Road yw'r enw ar hon bellach, ac ar ei chyffordd gyda Merchants Hill, ceir o leiaf un adeilad sy'n hŷn na'r datblygiadau a wnaed i'r ardal hon ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Gall Penywain Road fod wedi datblygu o lwybrau fferm neu lwybrau troed cynharach, ond ni chaiff ei dangos fel llwybr drwodd ar Fap y Degwm o Drefddyn. Cadwodd yr ardal y nodweddion agored hyn hyd at ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg pan ddechreuwyd adeiladu ar gaeau, mewn modd tameidiog i ddechrau, a chafwyd datblygiadau llinellol ar hyd y ffordd drwodd. Fodd bynnag, gadawodd y broses ddatblygu sawl poced o dir heb eu cyffwrdd, a dim ond pan sefydlwyd y rhaglen tai cyhoeddus ar ôl yr Ail Ryfel Byd y cafwyd datblygiadau ar raddfa fwy nac ar gaeau bach. Hyd yn oed nawr, mae rhai o'r hen gaeau wedi goroesi.



Nodweddion Adeiladu

Arweiniodd y cyfnod cyfyngedig o ddatblygu at gydlynad cryf yn yr ardal hon, ond ceir nodweddion amrywiol iawn ynddi. Y clwstwr o adeiladau ger Eglwys Sant Alban ar Wainfelin Road yw rhai o'r adeiladau cynharaf yma (fe'u dangosir ar fap 1836 ac mae'n debyg eu bod yn dyddio o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg), ac ar ben gogleddol y stryd mae adeilad arall wedi goroesi, sydd o bosibl hyd yn oed yn gynharach. Ar hyd Wainfelin Road mae'r tai yn gymysgedd o filâu mawr mewn parau, a nodweddir gan bentyrri cadarn a thalcenni mawr; a thai o faint canolig gyda ffenestri bae deulawr a ffryntiadau talcennog.

Mae gan bob un ohonynt erddi hir a manylion da i ddangos ffiniau yn nodweddiadol. Datblygwyd y strydoedd y tu ôl i'r brif echel hon gyda thai teras llai, y rhan fwyaf ohonynt yn dilyn yr un cynllun, ond gyda manylion amrywiol. Mae gan bob stryd (ac weithiau pob bloc o dai) ei harddull ei hun.

Mae defnydd rhodresgar o frics addurniadol, gyda gwahaniaethau cynnil fel p'un a oes unrhyw ffenestri bae, yn rhoi ymdeimlad cryf o liw a rhythm i'r strydlun. Mae waliau ffin sydd wedi goroesi'n dda yn cyfrannu at nodweddion cryf yr ardal hon.



Chwith: Cerrig a brics mewn cyfuniadau syml a choeth (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Chwith pellaf: Mae defnydd addurniadol o frics yn cysylltu'r tai teras hyn (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Chwith: Tai teras mwy, gyda thalcenni, ffenestri bae maint llawn, a gerddi hir (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Chwith: Tai mawr gyda ffasadau bywiog (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Datganiad Pwysigrwydd

Ceir hanes nodedig i Bont-y-pŵl a gellir honni mai hi yw'r dref ddiwydiannol gyntaf yng Nghymru. O fewn cyfyngiadau'r ardal anheddu fodern cafwyd datblygiadau technolegol mawr yn y diwydiant haearn, ac mae'r rhain hefyd wedi rhoi lle i'r dref mewn llyfrau hanes. Fodd bynnag, fel trefi diwydiannol llwyddiannus eraill, cyflwynodd pwysau datblygu gylch diddiwedd o newid a bellach prin yw'r nodweddion a welir yn adeiledd y dref sy'n cyfleu ei tharddiad cynnar a'i thwf. Ni welir llawer o dystiolaeth uniongyrchol o'i sylfaen diwydiannol bellach. Mae'r cylch o newid hefyd wedi sicrhau bod llawer o'r rhwydweithiau trafniadaeth hanesyddol a wasanaethai'r dref a'i chefnwlad wedi'u hesgeuluso, eu colli neu eu disodli gan ffyrdd modern. Esgeuluswyd yr afon hefyd, a arferai fod yn rhan annatod o'r datblygiad diwydiannol. Er hyn, mae canol y dref sy'n soffistigedig yn bensaernïol yn un o'r pethau a etifeddwyd o ffyniant diwydiannol y gorffennol. Mae cyfres o adeiladau dinesig a masnachol trawiadol sydd wedi'u tyrru mewn safle cyfyngedig o ran ei dirwedd wedi llunio treflun o ansawdd uchel.

Fel mewn trefi diwydiannol eraill, diffiniwyd nodweddion Pont-y-pŵl fodern mewn cyfnod cymharol fyr ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg drwy ddatblygu maestrefi preswyl mawr. Rhannwyd yr ardaloedd hyn gan dirwedd a llwybrau trafniadaeth, pob un â'i hunaniaeth unigol

cryf ei hun, er gwaethaf y nodweddion a rennir sy'n codi o fodelau cyffredin o adeiladau a deunyddiau, ac arddull nodedig. Defnyddir manylion pensaernïol yma i nodi tai o sawl math a maint, ac mae'r ffaith eu bod wedi goroesi yn gwahanu'r dref oddi wrth drefi eraill, gan ddangos hanes cymdeithasol cyfoethog hyd yn oed o'r gorffennol cymharol ddiweddar.

Mae Parc Pont-y-pŵl yn nodwedd hanesyddol hynod arall — yn safle i rai o'r gweithfeydd diwydiannol cynharaf ac yn gartref i'r llinach gref o dirfeddianwyr, mae'n ardal sy'n greiddiol i ffawd y dref. Er na lwyddodd i osgoi'r holl brosesau newid a wnaeth gymaint i fodolur dref, mae'r parc wedi gwrthod llawer ohonynt ac mae wedi goroesi fel etifeddiaeth bwysig o'r gorffennol, yn ogystal â bod yn rhwystr gwerthfawr i'r patrymau datblygu dwys sy'n nodweddu'r dref ei hun.

Mae holl anheddiad Pont-y-pŵl yn rhannu hanes diwydiannol pwysig. Arweiniodd gwaith echdynnu a chynhyrchu at rwydwaith o gysylltiadau rhwng ardaloedd ar wahân, a gyda'i gilydd roeddent yn cefnogi tref oedd â chanol wedi'i ddifffinio'n glir a chyfres gydlynol o aneddiadau dibynnol. Gellid adfer rhai o'r cysylltiadau toredig a arferai uno'r anheddiad, ond ar yr un pryd, mae nodweddion ffisegol gwahanol ei chydrannau yn nodwedd nodedig o'r dref, y dylid eu hatgyfnerthu.

Ffynonellau Dethol

Ffynonellau Cartograffig

Map 6" i un filltir yr Arolwg Ordnans,
Sir Fynwy, Argraffiad Cyntaf (1886).
Sir Fynwy XXIII NW XXIII NE, XVIII SW,
XVIII SE."

Map 25" i un filltir yr Arolwg Ordnans,
Sir Fynwy, Argraffiad Cyntaf (1880–1882).

Map 25" i un filltir yr Arolwg Ordnans,
Sir Fynwy, Ail Argraffiad (1901).

Cynllun o gamlas o Gasnewydd i Bontnewynydd
gyda changen i Bont Crymlyn, T. Dadford,
1792 (Amgueddfa Pont-y-pŵl).

Cynllun o gamlas o dref Brycheiniog i ymuno
â Chamlas Sir Fynwy ger tref Pont-y-pŵl,
T. Dadford, 1793 (Amgueddfa Pont-y-pŵl).

Cynllun o Bont-y-pŵl yn 1836 (Amgueddfa
Pont-y-pŵl).

Cynllun o Efail y Dref a'r Atodiadau, Pont-y-pŵl,
1834 (Swyddfa Cofnodion Gwent).

Mapiau o Ystad Parc Pont-y-pŵl
(Amgueddfa Pont-y-pŵl).

Map y Degwm, Plwyf Llanfihangel Pont-y-moel,
1839 (Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

Map y Degwm, Plwyf Pant-teg, 1839
(Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

Map y Degwm, Plwyf Trefddyn, 1841–44
(Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

Mapiau o Ystad Wentsland
(Amgueddfa Pont-y-pŵl).

Ffynonellau Cyhoeddiedig

R. R. Angerstein, *R. R. Angerstein's Illustrated
Travel Diary, 1753–1755* (Llundain, 2001).

C. Barber, *Eastern Valley; The Story of Torfaen*
(Llan-ffwyst, 1999).

D. S. M. Barrie, *A Regional History of the Railways
of Great Britain: South Wales, Cyfrol 12*
(Newton Abbot, 1980).

Emmanuel a Thomas Bowen, 'Monmouthshire
Divided into Hundreds', o D. P. M. Michael,
The Mapping of Monmouthshire (Bryste a'r
Fenni, 1985).

Joseph Bradney, *A History of Monmouthshire,
Cyfrol 1, Rhan 2b, The Hundred of Abergavenny
(rhan 2)* (Llundain, 1992).

Arthur Clark, *The Story of Pontypool*
(Pont-y-pŵl, 1958).

William Coxe, *An Historical Tour in Monmouthshire*
(Llundain, 1801).

Arthur Crane, Bernard Derrick ac Edward
Donovan, *Pontypool's Heritage in Pictures
and Post Cards* (Casnewydd, 1989).

John Davies, *Hanes Cymru* (Llundain, 1994).

D. D. a J. M. Gladwin, *The Canals of the Welsh
Valleys and their Tramroads* (Headington, 1991).

Madeleine Gray a Prys Morgan, gol, *The Gwent
County History, Cyfrol 3, The Making of
Monmouthshire, 1536–1780* (Caerdydd, 2009).

Charles Hadfield, *The Canals of South Wales and
the Border* (Newton Abbot, 1967).

L. Ince, *South Wales Iron Industry 1750–1885*
(Birmingham, 1993).

R. H. Johns, *Johns Directory of Pontypool and
Eastern Valleys* (R. H. Johns, 1906).

W. G. Lloyd, *Pontypool: The Heart of the Valley*
(Cwmbrân, 2009).

John Newman, *The Buildings of Wales:
Monmouthshire* (Llundain, 2000).

Reginald Nichols, *Pontypool and Usk Japan Ware*
(Pont-y-pŵl, 1981).

J. Pigot, *National Commercial Directory*
(Llundain, 1830).

Philip Riden, *A Gazetteer of Charcoal-Fired Blast
Furnaces in Great Britain in Use since 1660*
(Caerdydd, 1993).

H. R. Schubert, *History of the British Iron and
Steel Industry* (Llundain, 1957).

Isaac Slater, *Slater's Royal National and Commercial
Directory and Topography of the Counties
of Gloucestershire and Monmouthshire, and
North and South Wales* (Manceinion, 1858).


Ymddiriedolaeth Amgueddfa Torfaen,
The Story of Pontypool and Usk Japanware
(Pont-y-pŵl, 2009).

Ôl-nodion

1. William Coxe, *An Historical Tour in Monmouthshire* (Llundain, 1801).
2. J. Pigot, *National Commercial Directory* (Llundain, 1830).
3. Madeleine Gray a Prys Morgan, gol, *The Gwent County History, Cyfrol 3, The Making of Monmouthshire, 1536–1780* (Caerdydd, 2009).
4. Cynllun o Efail y Dref a'r Atodiadau, Pont-y-pŵl, 1834, Swyddfa Cofnodion Gwent.
5. Reginald Nichols, *Pontypool and Usk Japan Ware* (Pont-y-pŵl, 1981).
6. Madeleine Gray a Prys Morgan, gol, *The Gwent County History, Cyfrol 3, The Making of Monmouthshire, 1536–1780* (Caerdydd, 2009).
7. Reginald Nichols, *Pontypool and Usk Japan Ware* (Pont-y-pŵl, 1981).
8. Ymddiriedolaeth Amgueddfa Torfaen, *The Story of Pontypool and Usk Japanware* (Pont-y-pŵl, 2009).
9. John Davies, *Hanes Cymru* (Llundain, 1994).
10. Reginald Nichols, *Pontypool and Usk Japan Ware* (Pont-y-pŵl, 1981).
11. Isaac Slater, *Slater's Royal National and Commercial Directory and Topography of the Counties of Gloucestershire and Monmouthshire, and North and South Wales* (Manceinion, 1858).
12. J. Pigot, *National Commercial Directory* (Llundain, 1830).
13. W. G. Lloyd, *Pontypool: The Heart of the Valley* (Cwmbrân, 2009).
14. Dr Richard Pococke, dyfynnwyd yn Ymddiriedolaeth Amgueddfa Torfaen, *The Story of Pontypool and Usk Japanware* (Pont-y-pŵl, 2009).
15. Emmanuel a Thomas Bowen, 'Monmouthshire Divided into Hundreds', o D. P. M. Michael, *The Mapping of Monmouthshire* (Bryste a'r Fenni, 1985), tt. 49, 81.
16. R. R. Angerstein, *R. R. Angerstein's Illustrated Travel Diary, 1753–1755* (Llundain, 2001).
17. William Coxe, *An Historical Tour in Monmouthshire* (Llundain, 1801).
18. Cynllun o Bont-y-pŵl yn 1836, Amgueddfa Pont-y-pŵl.
19. Papurau'r Ystad, Amgueddfa Torfaen.
20. Cynllun o Efail y Dref a'r Atodiadau, Pont-y-pŵl, 1834, Swyddfa Cofnodion Gwent.
21. C. Barber, *Eastern Valley; The Story of Torfaen* (Llan-ffwyst, 1999).
22. Reginald Nichols, *Pontypool and Usk Japan Ware* (Pont-y-pŵl, 1981).
23. Ymddiriedolaeth Amgueddfa Torfaen, *The Story of Pontypool and Usk Japanware* (Pont-y-pŵl, 2009), o Thomas Martyn, *A Tour of South Wales, 1801* (ar gael yn: www.gtj.org.uk/en/small/item/gtj27000).
24. William Coxe, *An Historical Tour in Monmouthshire* (Llundain, 1801).
25. R. H. Johns, *Johns Directory of Pontypool and Eastern Valleys* (R. H. Johns, 1906).
26. *A Collection of Welsh Tours; neu, A Display of the Beauties of Wales 1797*; dyfynnwyd yn W. G. Lloyd, *Pontypool: The Heart of the Valley* (Cwmbrân, 2009).
27. Arthur Crane, Bernard Derrick ac Edward Donovan, *Pontypool's Heritage in Pictures and Post Cards* (Casnewydd, 1989).
28. Joseph Bradney, *A History of Monmouthshire, Cyfrol 1, Rhan 2b, The Hundred of Abergavenny (rhan 2)*, (Llundain, 1992).
29. William Coxe, *An Historical Tour in Monmouthshire* (Llundain, 1801).


I. Graddau Datblygiad Trefol erbyn 1844

(data Map y Degwm ar Argraffiad Cyntaf cronfa mapiau'r Arolwg Ordnans)




© Hawlfraint y Goron a Landmark Information Group. Cedwir pob hawl. Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent Cyf. Ar ran Llywodraeth Cymru 2012.

2. Graddau Datblygiad Trefol erbyn 1882 (ar Argraffiad Cyntaf cronfa mapiau'r Arolwg Ordnans)




© Hawlfraint y Goron a Landmark Information Group. Cedwir pob hawl. Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent Cyf. Ar ran Llywodraeth Cymru 2012.

3. Manylion Datblygiad Trefol yng Nghanol Pont-y-pŵl, Sow Hill a Throsnant erbyn 1882 (ar Argraffiad Cyntaf cronfa mapiau'r Arolwg Ordnans)




© Hawlfraint y Goron a Landmark Information Group. Cedwir pob hawl. Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent Cyf. Ar ran Llywodraeth Cymru 2012.

4. Graddau Datblygiad Trefol erbyn 1901 (ar Ail Argraffiad cronfa mapiau'r Arolwg Ordnans)




© Hawlfraint y Goron a Landmark Information Group. Cedwir pob hawl. Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent Cyf. Ar ran Llywodraeth Cymru 2012.

5. Manylion Datblygiad Trefol yng Nghanol Pont-y-pŵl, Sow Hill a Throsnant erbyn 1901
(ar Ail Argraffiad cronfa mapiau'r Arolwg Ordnans)




© Hawlfraint y Goron a Landmark Information Group. Cedwir pob hawl. Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent Cyf. Ar ran Llywodraeth Cymru 2012.


6. Pob Ardal â Nodweddion




7. Pob Ardal â Nodweddion lle ceir Adeiladau Rhestredig, Parc Cofrestredig ac Ardal Gadwraeth




8. Canol y Dref




9. Hanbury Road




10. Trosnant




11. Parc Pont-y-pŵl




12. Pont-y-moel




13. Heol Osborne




14. Penygarn ac i'r Dwyrain o'r Afon




15. Sow Hill



16. Waenfelin





Cadw yw gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru, yn gweithio i sicrhau amgylchedd hanesyddol hygrych a ddiogelir yn dda i Gymru.

Cadw
Llywodraeth Cymru
Plas Carew
Uned 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd CF15 7QQ